General Dental Council | protecting patients, regulating the dental team

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018

HC 38

# Y Cyngor Deintyydol Cyffredinol

## Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2018

Cyflwynir yr Adroddiad Blynyddol i'r Senedd yn unol ag adran 2B o Ddeddf Deintyddion 1984 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol a Seicolegwyr Ymarfer) 2009.

Cyflwynir yr Adroddiad Blynyddol i Senedd yr Alban (gan Weinidogion yr Alban) yn unol ag adran 2B o Ddeddf Deintyddion 1984 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol a Seicolegwyr Ymarfer) 2009.

Cyflwynir y cyfrifon i'r Senedd yn unol ag adran 2C o Ddeddf Deintyddion 1984 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn (Diwygio) 2005 Deddf Deintyddion 1984, Gorchymyn 2008 Deddf Cwmnïau 2006 (Diwygiadau Canlyniadol etc.) a Gorchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol a Seicolegwyr Ymarfer) 2009.

Cyflwynir y cyfrifon i Senedd yr Alban (gan Weinidogion yr Alban) yn unol ag adran 2C o Ddeddf Deintyddion 1984 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn (Diwygio) 2005 Deddf Deintyddion 1984, Gorchymyn 2008 Deddf Cwmnïau 2006 (Diwygiadau Canlyniadol etc.) a Gorchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol a Seicolegwyr Ymarfer) 2009.

Gorchmynnwyd i'w argraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 29 Hydref 2019.

SG/2019/72
HC 38

© Hawlfraint y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (2019)

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, trowch at nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Ble'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deilydd hawlfraint priodol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn:
www.gov.uk/official-documents.

Dylai unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon atom ni yn:
information@gdc-uk.org neu ffoniwch:
020 7167 6000

ISBN: 978-1-5286-1328-6

CCS – CCS0519229000 10/19

Argraffwyd yn y DU gan yr APS Group ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi

Dyluniwyd gan Navig8 www.navig8.co.uk

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibrau wedi'u hailgylchu.

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Diben statudol | **4** |
| 2 | Neges gan y Cadeirydd | **6** |
| 3 | Neges gan y Prif Weithredwr | **8** |
| 4 | Trosolwg busnes | **11** |
| 5 | Adroddiad perfformiad Addasrwydd i Ymarfer | **14** |
| 6 | Strwythur y cyngor a’r pwyllgorau | **17** |
| 7 | Adroddiad ar dâl | **20** |
| 8 | Adroddiad cyfrifoldeb cymdeithasol | **25** |
| 9 | Adolygiad ariannol | **28** |
| 10 | Datganiad o gyfrifoldebau’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a’r Prif Weithredwr | **32** |
| 11 | Datganiad llywodraethu | **33** |
| 12 | Cyfrifon | **40** |
| 13 | Adroddiad ystadegol Addasrwydd i Ymarfer | **72** |

1

# 1 Diben statudol

Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (CDC) yw rheoleiddiwr statudol 112,276[1] o aelodau'r tîm deintyddol. Mae hyn yn cynnwys 42,119 ddeintyddion a 70,157 o weithwyr gofal deintyddol proffesiynol, sy'n cynnwys nyrsys deintyddol, technegwyr deintyddol clinigol, hylenyddion deintyddol, technegwyr deintyddol, therapyddion deintyddol a therapyddion orthodontig.

## Ein diben

Mae ein deddfwriaeth, Deddf Deintyddion 1984 (fel y'i diwygiwyd) yn nodi'r amcanion canlynol:

- Diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd.
- Hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau a reoleiddir.
- Hyrwyddo a chynnal ymddygiad a safonau proffesiynol priodol ymhlith aelodau'r proffesiynau hynny.

## Rydym yn cyflawni ein rôl trwy ddefnyddio ein pwerau statudol i:

- gofrestru'r gweithwyr deintyddol proffesiynol hynny sy'n bodloni ei gofynion mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant, iechyd a chymeriad da. Dim ond y rhai sydd wedi cofrestru gyda ni sy'n gallu ymarfer deintyddiaeth yn y DU.
- Sicrhau ansawdd rhaglenni addysg a hyfforddiant deintyddol cyn cofrestru â'r CDC.
- Pennu safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg ar gyfer y tîm deintyddol.
- Ymchwilio i gwynion yn erbyn gweithwyr deintyddol proffesiynol a lle bo'n briodol, cymryd camau gweithredu drwy ein proses Addasrwydd i Ymarfer.
- Amddiffyn y cyhoedd rhag unigolion sy'n ymarfer deintyddiaeth heb gofrestru.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i weithwyr deintyddol proffesiynol barhau i ddiweddaru eu sgiliau trwy gyfrwng ein gofynion datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Yn ychwanegol, wrth geisio cyflawni ein hamcanion statudol, rydym yn darparu'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol sy'n ceisio helpu cleifion a gweithwyr deintyddol proffesiynol i ddefnyddio proses gyfryngu i ddatrys cwynion ynglŷn â gofal deintyddol preifat.

[1] Roedd y data ynghylch cofrestreion yn gywir ar 31 Rhagfyr 2018.

**Wrth gyflawni ein holl weithgareddau, byddwn yn ceisio arddangos ein gwerthoedd, sef:**

## Tegwch:
Byddwn yn trin pawb y byddwn yn ymdrin â hwy yn deg

## Tryloywder:
Rydym yn agored ynglŷn â'n dull o weithio a'n dull o wneud penderfyniadau

## Ymatebolrwydd:
Rydym yn gallu addasu i amgylchiadau sy'n newid

## Parch:
Rydym yn trin gweithwyr deintyddol proffesiynol, ein cleifion, y cyhoedd, ein partneriaid a'n gweithwyr cyflogedig â pharch

Yn 2019, diweddarodd y CDC ein dull o gyfleu ein gwerthoedd, fel y nodir yn ein strategaeth ar gyfer 2020–22. Cyhoeddir y strategaeth hon yn hydref 2019.[2]

[2] https://www.gdc-uk.org/about/what-we-do/consultations

# 2 Neges gan y Cadeirydd



Mae stori'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn 2018 yn un o barhau i ychwanegu at lwyddiannau'r pedair blynedd flaenorol a thorri rhagor o dir newydd.

Yn ystod 2018, fe wnaethom barhau i ymgorffori'r newid sylweddol mewn ffocws a grybwyllwyd gan Shifting the Balance: system well a thecach o reoleiddio deintyddiaeth. Fe wnaethom gwblhau'r mwyafrif o'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r adolygiad manwl o'n prosesau gorfodi. Fe wnaethom barhau i gryfhau'r ddisgyblaeth ariannol well a gafodd ei gweithredu gan y Prif Weithredwr a'i dîm a'i goruchwylio gan y Cyngor a'i bwyllgorau.

Ac yn erbyn y cefndir hwn, fe wnaethom symud cyfran sylweddol o'n gweithgarwch gweithredol i ganolbwynt newydd yn Birmingham a gosod y sylfaen ar gyfer lleoli mwyafrif ein staff oddi allan i Lundain erbyn diwedd 2019. Bydd hyn yn gwella ein heffeithiolrwydd trwy, er enghraifft, gynnig mynediad i ni i'r farchnad sgiliau fawr a bywiog sydd ar gael oddi allan i Lundain a bydd hynny'n arbed o leiaf £50 miliwn dros y 15 mlynedd nesaf.

Tua diwedd 2018, fe wnaethom fuddsoddi ymdrech i baratoi at ein cynhadledd fawr gyntaf, y gwnaethom ei chynnal yn Birmingham ym mis Ionawr eleni, gyda llawer o gyfranogwyr a siaradwyr o'r proffesiynau deintyddol a'r cyhoedd. Oherwydd cyfanswm yr adborth cadarnhaol a gawsom, rydym wedi dod i'r casgliad bod y gynhadledd wedi bod yn llwyddiant.

Yn y gynhadledd, fe wnaethom lansio, o dan y teitl "Moving Upstream", y cyntaf o'r hyn yr ydym ni'n disgwyl i ddod yn gyfres flynyddol o gyhoeddiadau am ddeintyddiaeth a rheoleiddio'r maes. Mae Moving Upstream yn ategu'r wybodaeth a gyflwynir yn ffurfiol yn yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol hyn. Yn wir, er bod ein hadroddiad blynyddol yn parhau i fod yn ddull pwysig (a statudol yn wir) o gyfathrebu gwybodaeth allweddol, yn enwedig mewn perthynas â chyllid, mae stori ehangach y CDC bellach yn cael ei hadrodd ar draws ystod o gyhoeddiadau.

Un mesur personol o ba mor bell yr ydym wedi dod fel sefydliad yw pa mor aml y byddaf yn gweld mentrau a fyddai ar un adeg wedi cael eu cyfrif fel materion o fri yn eu rhinwedd eu hunain ond sydd bellach wedi dod yn bethau cyffredin. Nid yw hynny'n golygu nad oes llawer o welliant i'w wneud o hyd – gwelliant yr ydym yn mynd ati'n egnïol i geisio ei sicrhau – ond mae'n arwydd, rwy'n credu, bod gwneud pethau'n well, er budd y cyhoedd, wedi dod yn ffordd o fyw yn y CDC. Rwy'n

ddiolchgar i holl aelodau'r Cyngor, gan gynnwys y rhai a ymunodd â ni a'r rhai a symudodd ymlaen yn ystod 2018, am wneud i'n cyflawniadau niferus ymddangos fel busnes fel arfer erbyn hyn.

Rydym yn ddiolchgar hefyd, wrth gwrs, i staff a chymdeithion gweithgar a phroffesiynol y Cyngor. Rhaid i mi gofnodi, felly, ddiolchgarwch y Cyngor i'w staff am dasg sydd o bwys enfawr, ond rwy'n gwybod y gall deimlo'n waith diddiolch weithiau.

Dyma'r pumed adroddiad blynyddol y mae'r Cyngor wedi'i gyhoeddi yn ystod fy nghyfnod fel Cadeirydd. Mae wedi bod yn gyfnod o newid aruthrol a chyflawniad mawr i'r CDC. Ond mae rhai pethau'n parhau i fod yn rhy gyfarwydd o lawer. Mae rheoleiddio gofal iechyd proffesiynol yn parhau i gael ei gynnal o fewn fframwaith deddfwriaethol y cytunir yn eang ei fod yn anaddas i'r diben. Er ein bod yn croesawu'r camau y mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn eu cymryd i archwilio dulliau newydd, mae angen cyflymu'r gwaith. Mae'r broses o ddiwygio contract y GIG yn Lloegr yn agosáu at ddiwedd ei degawd gyntaf ac rydym yn cydnabod bod hynny'n parhau i fod yn destun rhwystredigaeth i lawer yn y proffesiynau deintyddol. Mae llais deintyddiaeth yn parhau i fod braidd yn dameidiog ac ymddengys bod ymgysylltu â strwythurau gwleidyddol traddodiadol, fel cymdeithasau proffesiynol, yn parhau i leihau.

Ac er nad dyma'r lle i roi sylw i Brexit fel mwy na chyfeiriad byr, mae'n parhau i fwrw ei gysgod dros bron iawn pob agwedd ar fywyd yn y DU. Nid yw hynny'n wahanol yn achos deintyddiaeth.

Yn y CDC, ni fyddwn yn gadael i'r heriau hynny, na rhai eraill, lesteirio'r dull o wneud popeth o fewn ein gallu i gyflawni ein hamcanion statudol o amddiffyn y cyhoedd a hyder y cyhoedd yn y proffesiynau deintyddol, â ffocws parhaus ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

**Dr William Moyes**
Cadeirydd

# 3 Neges gan y Prif Weithredwr



Fel y gobeithiaf sy'n cael ei adlewyrchu gan y disgrifiad o gyflawniadau yn erbyn ein cynllun busnes 2018 a nodir yn ddiweddarach yn y ddogfen hon, ar gyfer y CDC ar y lefel weithredol, roedd 2018 yn flwyddyn a nodweddwyd gan symud o'r bwriad i'r gweithredu.

Symudodd llawer o'r dyheadau a'r syniadau a nodwyd yn Shifting the Balance: system well a thecach o reoleiddio deintyddiaeth, o drafod ac ymgysylltu eang – sydd yn werthfawr yn ei rinwedd ei hun, wrth gwrs – i gyflawni.

## Sicrhau ansawdd addysg

Er enghraifft, cymerodd ein huchelgais i wella effaith ein gweithgareddau sicrhau ansawdd addysg ei gam gweithredol diriaethol cyntaf. Rydym yn gweld addysg ddeintyddol fel y broses o'i dechrau i'w diwedd o droi aelodau'r cyhoedd yn weithwyr gofal iechyd gofalgar, cymwys a thosturiol. Dyluniwyd ein dull thematig a seiliedig ar risg newydd i ganolbwyntio'n gynyddol ar wendidau systemig.

Ar ôl cyfnod helaeth o ymgynghori a thrafod â rhanddeiliaid, symudodd y dull newydd i'w gam cyntaf – er yn drosiannol – ym mlwyddyn academaidd 2018–19. Er bod y profiad yn sicr wedi darparu llawer o wersi i ni ddysgu ohonynt a gwella, mae'r gwaith yn mynd rhagddo yn unol â'r bwriad i raddau helaeth iawn.

Rydym wedi bod yn cydweithio â rhanddeiliaid, ar draws pedair gwlad y DU, i archwilio sawl thema ar draws addysg ddeintyddol, gan gynnwys, er enghraifft:

- defnyddio data i nodi'r myfyrwyr hynny nad ydynt yn perfformio yn unol â'r safonau disgwyliedig ac i ddylunio, gweithredu a monitro ymyriadau
- sut mae darparwyr addysg yn gwneud penderfyniadau ynghylch beth yw amlygiad digonol i weithdrefnau clinigol i ddod yn ddechreuwr diogel
- sut mae addysg a hyfforddiant israddedig ac uwchraddedig yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau trosglwyddiad effeithiol i ymarfer diogel – a'r mater cysylltiedig o gydnerthedd ymhlith gweithwyr deintyddol proffesiynol sydd newydd gymhwyso.

## Ymgysylltu â myfyrwyr

Yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19, cafwyd cyfres o ddigwyddiadau peilot ymgysylltu â myfyrwyr, gyda deintyddion a gweithwyr deintyddol proffesiynol. Fe wnaethom gydweithio â darparwyr addysg a myfyrwyr mewn saith ysgol ddeintyddol i brofi buddion cychwyn sgwrs "anffurfiol" rhwng y rheolydd a gweithwyr proffesiynol gan ddechrau ar gychwyn cyntaf eu gyrfaoedd. Cawsom drafodaethau da am

broffesiynoldeb ym maes deintyddiaeth a pham mae hynny'n bwysig o ran diogelwch a hyder y cyhoedd. Gobeithiwn y bydd y rhaglen hon – o'i chyflwyno'n ehangach – yn helpu i wasgaru'r "hinsawdd ofn" ddi-fudd a gwrthgynhyrchiol a nodwyd fel mater allweddol gan lawer o weithwyr proffesiynol ym maes deintyddiaeth.

## Hyrwyddo proffesiynoldeb

Yn ystod 2018, fe wnaethom gynnal camau cychwynnol rhaglen waith uchelgeisiol ledled y DU – rownd ddwys o drafodaethau â rhanddeiliaid – ynghylch "hyrwyddo proffesiynoldeb". Rydym yn gweld cyfleoedd ar gyfer dull newydd o fynegi'r cysyniad o broffesiynoldeb ym maes deintyddiaeth. Mae hynny'n seiliedig ar sgyrsiau rhwng y proffesiynau a'r cyhoedd ynghylch cyd-ddisgwyliadau a rhwymedigaethau yn y berthynas rhwng cleifion a gweithwyr proffesiynol. A barnu o'r ymateb cadarnhaol iawn i'r cyfleoedd y gwnaethom gynnal peilot ohonynt yn 2018 i roi cyfle i weithwyr proffesiynol gael mynediad at farn y cyhoedd – naill ai'n uniongyrchol trwy drafodaeth neu'n anuniongyrchol trwy'r cyfryngau digidol ac ymchwil – credwn y bydd hon yn diriogaeth ffrwythlon iawn i'w harchwilio o hyn ymlaen.

## Datblygiad proffesiynol parhaus a dysgu gydol oes

Yn ystod 2018, fe wnaethom gynnydd sylweddol yng ngham nesaf ein gwaith i wella dulliau o ddarparu DPP mewn deintyddiaeth. Fe wnaeth ein grŵp cynghori, sydd ag aelodaeth sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol o ddeintyddiaeth a meysydd eraill, ein helpu i ddatblygu manylion y dyheadau a nodwyd gennym yn Shifting the Balance yn 2017. Fe wnaethant ein rhoi mewn sefyllfa, yn ôl y disgwyl, i allu lansio ymgynghoriad mawr ar y pwnc hwn yn 2019.

## Tystiolaeth ac ymchwil

Efallai mai un o'r datblygiadau pwysicaf i'r CDC yn 2018 oedd sefydlu gallu proffesiynol bychan ond arwyddocaol ym maes ymchwil a thystiolaeth. Mae hyn yn gynyddol bwysig wrth i ni geisio symud y ddadl am ddeintyddiaeth a'i rheoleiddio allan o faes yr anecdot a'r farn – yn aml heb wybodaeth ddigonol – ac i fewnwelediad sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Roedd y buddsoddiad bychan hwn eisoes wedi cychwyn sicrhau canlyniadau erbyn diwedd y flwyddyn adrodd ac mae gennym ddisgwyliadau uchel at y dyfodol.

## Annog datrys cwynion yn lleol

Yn ystod 2018, parhaodd nifer y pryderon a hysbysir i'r CDC i ostwng. Ni allwn hawlio cysylltiad achosol uniongyrchol â gwaith y CDC. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad hwn wedi digwydd yn ystod cyfnod pan ydym wedi bod yn buddsoddi ymdrech sylweddol. Er enghraifft, annog datrysiadau lleol, gweithredu dull "hunan-hidlo" effeithiol ar y we i helpu'r cyhoedd i ganfod y cartref gorau i'w pryder, a'r gwaith rhagorol trwy ein grŵp trin cwynion ledled y proffesiwn i ddatblygu a lledaenu egwyddorion syml ynghylch trin cwynion yn effeithiol ar gyfer y cyhoedd, cleifion a gweithwyr proffesiynol.

## Addasrwydd i ymarfer

Wrth gwrs, byddai'n amhriodol i ni geisio dargyfeirio pryderon sy'n codi cwestiynau difrifol am addasrwydd gweithiwr proffesiynol i ymarfer. Felly, rydym wedi cael sicrwydd, er gwaethaf y gostyngiad yn y pryderon cyffredinol, bod cyfran y pryderon hynny sy'n amlwg yn faterion i'r CDC wedi cynyddu. Ar yr un pryd, mae ein llwyth achosion yn dod yn fwyfwy cymhleth. Mae'r rhain yn bwyntiau pwysig oherwydd maent yn ein hatgoffa nad yw gostyngiad mewn pryderon o reidrwydd yn golygu gostyngiad uniongyrchol cymesur mewn costau.

Yn erbyn y cefndir hwnnw, gwnaeth adolygiad hollgynhwysfawr y CDC o'i brosesau addasrwydd i ymarfer gynnydd rhagorol yn 2018. Er na fydd yr adolygiad wedi'i gwblhau tan 2019, rydym wedi mynd ati i weithredu nifer o ddatblygiadau arloesol sy'n deillio o'r adolygiad wrth iddynt gael eu nodi. Er enghraifft, yn gynnar yn 2018, fe wnaethom sefydlu grŵp asesu cychwynnol a ddaeth â chyngor cyfreithiol, clinigol a pholisi perthnasol ynghyd i helpu i gyflymu ystyriaeth gynnar o bryderon y byddwn yn eu derbyn. Bellach, bydd y cam cyntaf hwnnw o'r broses yn aml wedi'i gwblhau ymhen 24 awr ar ôl derbyn pryder; cyn y fenter hon, fel rheol, byddai'n cymryd tua phythefnos. Dyma un o lawer o enghreifftiau o wella prosesau a ddaeth i'r amlwg o'r adolygiad, ac yn wir, ni all fy sylwadau yn yr adroddiad hwn wneud cyfiawnder â chwmpas llawn y diwygiadau y gwnaethom barhau i'w gweithredu neu gychwyn eu gweithredu yn 2018 mewn ystod eang o feysydd.

Yn anffodus, mae ein gallu i wireddu potensial llawn system reoleiddio fodern, wedi'i seilio ar egwyddorion, yn cael ei rwystro gan yr hyn sy'n parhau i fod yn fframwaith deddfwriaethol hynafol. Yn ystod 2018, gwnaethom barhau i gydweithio â'r Adran Iechyd a

Gofal Cymdeithasol ar ei diwygiadau arfaethedig. Un o nifer o nodweddion hen ffasiwn y ddeddfwriaeth yw ei bod i bob pwrpas yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau a chyfrifon blynyddol y CDC ganolbwyntio ar addasrwydd i ymarfer, ond mewn gwirionedd, y stori bwysicaf ar yr adeg hon yn ein hanes yw ein dull o newid y ffordd o fynd ati i reoleiddio i'w gwneud yn llai dibynnol ar ymchwilio a gorfodi.

## Adleoli i Birmingham, gostyngiad yn ein hystâd yn Llundain

Mae'n brawf o broffesiynoldeb staff y CDC bod y newidiadau sylweddol hyn wedi'u gwneud ar adeg o ansicrwydd sylweddol i weithwyr wrth i ni fwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni uchelgais y Cyngor i symud y mwyafrif o'i weithrediadau oddi allan i Lundain a sefydlu canolbwynt gweithredol newydd yn Birmingham. Mae hyn wedi hawlio llawer o amser ac egni arweinwyr yn ystod 2018 a bydd yn parhau i wneud hynny yn ystod 2019 a thu hwnt. Mae'r elw ar y gwaith caled a'r ymdrech hon eisoes yn dechrau amlygu ei hun ar ffurf gweithlu lleol brwdfrydig sy'n creu argraff dda – ac mewn arbedion sylweddol dros y 15 mlynedd nesaf.

Yn ystod 2018, fe wnaethom gyflawni cam cyntaf ein symudiad heb unrhyw effaith amlwg ar fusnes i'r arsylwr allanol. Mae hwn yn gyflawniad penodol oherwydd y swyddogaethau cofrestru – y rhai y mae cofrestreion yn debygol o fod â'r cyswllt mwyaf â hwy – oedd rhai o'r swyddogaethau cyntaf i symud. Mae hyn yn glod i'r personél dan sylw, a gweithiodd llawer ohonynt yn hynod o galed i sicrhau bod y symudiad yn llwyddiant er gwaethaf y ffaith eu bod yn gwybod na fyddent yn bersonol yn rhan o ddyfodol tymor hwy y CDC.

Mae rhan o'r strategaeth, a'r arbedion cysylltiedig, yn cynnwys defnyddio ein hadeilad yn Wimpole Street i gynnal gwrandawiadau o 2020 ymlaen, a bydd hynny'n ein galluogi i hepgor y gost ychwanegol o logi lle i gynnal gwrandawiadau yn Llundain. Yn rhannol o ganlyniad i'r gwaith rydym wedi'i wneud i sicrhau ein bod yn bwrw ymlaen â'r achosion cywir – er enghraifft, trwy sefydlu'r system Archwilwyr Achosion – gostyngodd nifer y diwrnodau gwrandawiadau y mae angen i ni eu defnyddio o 1,171 i 1,079 yn ystod y cyfnod. Byddwn yn sicrhau bod symud gwrandawiadau i Wimpole Street yn cynnwys digon o hyblygrwydd i ymdopi â newid.

## Cynllunio ariannol a chorfforaethol

Yn ystod 2018, fe wnaeth cydnerthedd ariannol ac ymagweddau ariannol y CDC at gynllunio corfforaethol barhau i wella, a chafwyd datblygiadau sydd wedi ein rhoi mewn sefyllfa lawer cryfach i ymgynghori'n ystyrlon ar strategaeth tair blynedd yn ystod 2019.

## Perthynas Prydain ag Ewrop

Er gwaethaf cydnerthedd ariannol gwell, mae perthynas y DU â'r UE yn y dyfodol yn parhau i fod yn ffynhonnell o ansicrwydd sylweddol i'r CDC, er nad yw'r gostyngiad a ragwelwyd yn eang yn nifer y gweithwyr cofrestredig wedi cael ei wireddu hyd yn hyn. Er ein bod bellach yn cyhoeddi niferoedd gweithwyr cofrestredig ar wahân[3], ym mis Rhagfyr 2018, roedd niferoedd deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn 42,119 a 70,157 yn y drefn honno.

Rydym yn cydnabod bod ein cofrestr yn offeryn eithaf di-flewyn-ar-dafod yn hyn o beth; nid yw wedi'i gynllunio i ddarparu data ynghylch y gweithlu, felly nid yw'n dweud fawr ddim wrthym, os unrhyw beth o gwbl, am sut mae gweithwyr proffesiynol cofrestredig yn gweithio, a ydynt yn gweithio neu beidio a ble maent yn gweithio. Fodd bynnag, roeddem wedi bod yn pryderu y byddai ceisiadau i Gofrestru gan ddeintyddion newydd gymhwyso â chymwysterau o'r UE (sef bron i chwarter y gweithwyr cofrestredig newydd bob blwyddyn) yn lleihau. Mae'n werth nodi bod y ffaith bod y prif niferoedd wedi parhau i ddal eu tir yn ystod 2018 yn hollol gyson wrth gwrs â materion yn ymwneud â'r gweithlu y rhoddir gwybod amdanynt mewn rhai rhannau o'r wlad.

Yn ystod 2018, fe wnaethom ymdrech i ddeall ac archwilio'n fanwl y goblygiadau i'r CDC, er enghraifft, y symudiad tebygol oddi wrth ymagweddau at gofrestru ar sail cyd-gydnabod cymwysterau proffesiynol. Roedd yr unig atebion a oedd o fewn rheolaeth y CDC ymhell o fod yn ddelfrydol, ond mae'r gwaith rydym wedi'i wneud, mewn cydweithrediad â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn golygu ein bod mewn sefyllfa sydd gryn dipyn yn gadarnach na'n sefyllfa ar ddechrau'r flwyddyn.

Er gwaethaf yr ansicrwydd sy'n parhau yn y maes hwn, mae ein gallu i gynllunio yng nghwrs arferol digwyddiadau ac ymdopi â'r annisgwyl wedi gwella. Mae hyn wedi golygu bod dadl ar sail gwybodaeth am lefelau ffioedd yn y dyfodol yn obaith mwy realistig nag yr oedd yn ystod y blynyddoedd diweddar, a bydd hynny'n digwydd yn haf 2019.

**Ian Brack**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

[3] *Moving Upstream* https://www.gdc-uk.org/about/what-we-do/shifting-the-balance/moving-upstream

4

# 4 Trosolwg busnes 2018

## Pwy ydym ni

Roedd y CDC yn cyflogi bron i 360 aelod o staff (ein cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd dros y flwyddyn) ac yn cael ei oruchwylio gan Gadeirydd anweithredol a Chyngor, a oedd yn cynnwys 12 aelod, chwech ohonynt yn aelodau anghofrestredig a chwe gweithiwr deintyddol proffesiynol cofrestredig. Fe wnaethom hefyd gydweithio'n agos â thua 460 o gymdeithion a'n helpodd ni i ddarparu ystod o weithgarwch gan gynnwys paneli addasrwydd i ymarfer ac apelio, sicrhau ansawdd addysg ac ymateb i gwynion a dderbynir gan y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol.

Yn 2018, roedd gennym bedair cyfarwyddiaeth dan arweiniad cyfarwyddwyr a oedd yn aelodau o'r Tîm Rheoli Gweithredol.


Roedd y Tîm Rheoli Gweithredol yn gyfrifol am:

- weithredu'r strategaeth a gymeradwywyd gan y Cyngor
- paratoi cynllun busnes a chyllideb flynyddol
- darparu adroddiadau rheoli rheolaidd i'r Cyngor, a sicrhau bod adroddiadau priodol yn cael eu darparu i bwyllgorau'r Cyngor ar faterion sydd o fewn eu cylch gwaith
- nodi ac adrodd ar risgiau strategol i'r Cyngor a sicrhau bod perchnogaeth risg yn cael ei ddyrannu ar y lefel briodol ag atebolrwydd clir
- adolygu ac adrodd ar agweddau eraill ar y model llywodraethu.

Roedd yr holl gyfarwyddiaethau yn cael eu goruchwylio gan y Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu. Dyma'r cyfarwyddiaethau:

- Datblygu Sefydliadol
- Cofrestru ac Adnoddau Corfforaethol
- Addasrwydd i Ymarfer
- Strategaeth.

# Siart y sefydliad



# Adolygiad o gynllun busnes 2018

Yn 2018, ochr yn ochr â'n rhaglenni craidd arferol i gyflawni ein swyddogaethau statudol, sy'n cynnwys Cofrestru, Addysg, Sicrhau Ansawdd, Safonau ac Addasrwydd i Ymarfer, fe wnaethom gyflawni cynllun busnes, gan ganolbwyntio ar fentrau newid a oedd yn rhan o bedair prif thema:

- datblygu ein model o reoleiddio ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi
- gwella ein dull o reoleiddio gorfodi
- datblygu gallu sefydliadol a gwella ein perfformiad
- parhau i ddatblygu sefydliad cost-effeithiol ac effeithlon.

## Datblygu ein model o reoleiddio ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi

Yn 2018, fe wnaethom ni:

- ymgynghori ar a chynnig prosesau newydd ym maes sicrhau ansawdd mewn addysg, wedi'u cynllunio i wella ein ffocws ar risgiau a materion ar draws y system
- darparu arweiniad clir a chymorth i weithwyr deintyddol proffesiynol i ddiweddaru eu sgiliau trwy gydol eu gyrfa trwy gyflwyno cynllun newydd sy'n cynnig DPP gwell
- gwell cymorth i gleifion y GIG yn ystod cam cyntaf codi cwynion trwy ddarparu gwasanaeth arweiniad cychwynnol a chyfeirio'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol iddynt, rhywbeth a oedd ar gael yn flaenorol i gleifion preifat yn unig. Mae'r gwasanaeth hwn gan y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol yn darparu cyngor i gleifion ac yn eu cyfeirio at sefydliadau arbenigol a all gynorthwyo â'u cwyn os oes angen.

## Gwella ein dull o reoleiddio gorfodi

Yn 2018, fe wnaethom ni:

- barhau i wneud cynnydd sylweddol â'n hadolygiad cynhwysfawr o'r broses Addasrwydd i Ymarfer gyfan i ddileu aneffeithlonrwydd a chynyddu effeithiolrwydd i'r eithaf
- cynnal gwaith ymchwil a chwmpasu cychwynnol i gynorthwyo i ddatblygu ein dull o fynd i'r afael â 'difrifoldeb' mewn perthynas ag addasrwydd i ymarfer.

## Datblygu gallu sefydliadol a gwella ein perfformiad

Yn 2018, fe wnaethom ni:

- ddatblygu a gweithredu strategaeth pobl newydd, gan sefydlu dull cynhwysfawr o reoli doniau staff, â'r nod o wella perfformiad ar draws yr holl swyddogaethau a sicrhau y gallwn fod yn rheoleiddiwr hynod o effeithiol
- cryfhau ein dull o drefnu ein gweithlu i sicrhau ein bod yn deall ein model cyfredol, beth sydd ei angen ar y sefydliad nawr ac yn y dyfodol, a sut i lenwi bylchau posibl
- gweithredu cyfleoedd dysgu a datblygu cadarn i staff o fewn fframwaith sgiliau, gan sicrhau bod gallu a chymorth yn eu lle i gyflawni yn erbyn anghenion y sefydliad
- cyflawni ein strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i sicrhau ein bod yn cyflawni ein gwerthoedd corfforaethol.

## Parhau i ddatblygu sefydliad cost-effeithiol ac effeithlon.

Yn 2018, fe wnaethom ni:

- ddatblygu, ymgynghori ar a gweithredu fframwaith polisi newydd ar gyfer gosod ffioedd, er mwyn galluogi mynegiant clir a chadarn o'n dull o ddyrannu adnoddau
- symud nifer sylweddol o rolau i'n swyddfa newydd yn Birmingham (a chau gofod swyddfa ar brydles ddrud yn Llundain), gan wella gwerth am arian o safbwynt rheoli staff ac ystadau
- ail-leoli'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol i'n swyddfa yn Wimpole Street, a datgomisiynu'r swyddfa yn Croydon yn unol â'n Strategaeth Ystadau
- gwella ein gallu i nodi a rheoli risgiau gwybodaeth trwy gryfhau ein fframwaith llywodraethu gwybodaeth a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

# 5 Adroddiad perfformiad Addasrwydd i Ymarfer

Mae Adran 2B o Ddeddf Deintyddion 1984 yn ei gwneud yn ofynnol i'r CDC gyhoeddi adroddiad ystadegol sy'n nodi effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau (ac sy'n cynnwys disgrifiad o'r trefniadau hynny) y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith i amddiffyn aelodau'r cyhoedd rhag unigolion sydd yn ddeintyddion cofrestredig neu'n weithwyr gofal deintyddol proffesiynol cofrestredig ac y mae eu haddasrwydd i ymarfer yn ddiffygiol, ynghyd ag arsylwadau'r Cyngor ar yr adroddiad. Bwriad y trosolwg hwn, a'r wybodaeth ystadegol fanylach ar dudalennau 72–85, yw ateb y diben hwnnw.

Pan hysbysir y CDC am bryderon, byddwn yn eu hystyried, ac os bydd angen, yn ymchwilio i asesu a all y materion dan sylw awgrymu bod addasrwydd gweithiwr proffesiynol cofrestredig i ymarfer yn ddiffygiol.

Wrth ddweud bod rhywun yn "addas i ymarfer", rydym ni'n golygu bod ganddyn nhw'r sgiliau, y wybodaeth, y cymeriad a'r iechyd priodol i ymarfer eu proffesiwn yn ddiogel ac yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw addasrwydd i ymarfer yn ymwneud â pherfformiad clinigol neu iechyd ymarferydd yn unig.

Mae addasrwydd ymarferydd i ymarfer hefyd yn cynnwys unrhyw gamau y gallent fod wedi'u cymryd sy'n effeithio ar hyder y cyhoedd mewn gweithwyr deintyddol proffesiynol ac yn y dull o'u rheoleiddio. Gall hyn gynnwys materion nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig ag ymarfer proffesiynol, er enghraifft, troseddu.

Os bydd pryderon bod diffygion yn ymddygiad neu allu gweithiwr deintyddol proffesiynol mor ddifrifol nes eu bod yn rhoi cleifion mewn perygl difrifol, neu'n tanseilio hyder y cyhoedd mewn deintyddiaeth yn ddifrifol, byddwn yn ymchwilio, a phan fo hynny'n briodol, yn cymryd camau i liniaru'r risg hwnnw. Gall pryderon godi'n uniongyrchol, e.e. gan glaf, drwy atgyfeiriad gan gorff arall (er enghraifft, hysbysiad gan yr heddlu o rybudd troseddol neu euogfarn), neu o ffynonellau eraill.

Byddwn yn ymchwilio i'r canlynol:

- camgymeriadau difrifol neu fynych mewn gofal clinigol, er enghraifft, camgymeriadau mewn diagnosis neu weithdrefnau deintyddol
- methu ag archwilio claf yn briodol, methu â chael cydsyniad ar sail gwybodaeth gan y claf cyn triniaeth neu fethu ag ymateb yn rhesymol i anghenion claf

- dim yswiriant indemniad proffesiynol
- materion traws-heintiad (er enghraifft, defnyddio cyfarpar clinigol budr yn ystod triniaeth)
- achosion difrifol o dorri cyfrinachedd claf
- arwyddion o drosedd, gan gynnwys twyll, achos o ddwyn neu anonestrwydd gan ddeintydd neu weithiwr gofal deintyddol proffesiynol
- iechyd gwael neu gyflwr meddygol sy'n cael effaith sylweddol ar allu'r gweithiwr cofrestredig i drin cleifion yn ddiogel.

Bydd yr holl bryderon ynghylch Addasrwydd i Ymarfer yn cael eu hadolygu yn y cam asesu cychwynnol. Ar ôl asesiad cychwynnol, byddant yn cael eu cau os na fydd angen cymryd camau ychwanegol. O'r gweddill, cyfeirir canran fechan at GIG Lloegr neu GIG Cymru i'w hystyried, fel arall fe'u hatgyfeirir i'w hymchwilio ymhellach gan y tîm gwaith achosion.


Ar ôl ymchwiliad llawn, cyfeirir materion sy'n gyfystyr â honiad o ddiffyg posibl o ran addasrwydd i ymarfer at archwilwyr achosion[4]. Os na fydd y pryder yn gyfystyr â honiad o ddiffyg, bydd y mater yn cael ei gau gan y tîm gwaith achosion. Fel arall, bydd dau archwilydd achosion, sef unigolyn cofrestredig ac aelod sydd heb ei gofrestru (rhywun sydd ddim ar ein cofrestr a heb gymwysterau deintyddol) yn ystyried yr achos ymhellach. Ni fyddant yn penderfynu a yw'r honiad wedi'i brofi ond byddant yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ac yn penderfynu a oes posibilrwydd gwirioneddol y gall yr honiadau gael eu profi mewn cyfarfod o Bwyllgor Ymarfer.

Gall archwilwyr achosion benderfynu nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach neu gallant gau'r achos â chyngor neu rybudd. Mewn achosion a allai fod yn fwy difrifol neu lle bydd gwrthdaro tystiolaeth, gallant gyfeirio'r mater at un o dri Phwyllgor Ymarfer: y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol (CSP); y Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol (PPC); neu'r Pwyllgor Iechyd (HC) ar gyfer gwrandawiad ffurfiol. Mewn rhai achosion, gellir cyfeirio'r achos hefyd at un o'r pwyllgorau hyn a'r Pwyllgor Gorchmynion Interim (IOC).

Bydd gweithwyr deintyddol proffesiynol a gyfeirir at Bwyllgor Ymarfer yn ymddangos gerbron panel annibynnol o aelodau lleyg ac aelodau sy'n weithwyr deintyddol proffesiynol fel rhan o wrandawiad ffurfiol lle bydd gan y CDC a'r gweithwyr deintyddol proffesiynol yr hawl i gynrychiolaeth gyfreithiol.

[4] Fe wnaeth y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gyflwyno archwilwyr achosion ym mis Tachwedd 2016 i gyflawni'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau gwneud penderfyniadau oedd yn cael eu cyflawni'n flaenorol gan y Pwyllgor Ymchwilio.

Gan ddefnyddio data 2018, mae’r diagram isod yn dangos y nifer o achosion a gafodd eu cau yn ystod bob cam o’r broses addasrwydd i ymarfer.




Wedi’u derbyn fel achosion yn y cam asesu cychwynnol

Wedi’u cau yn ystod y cam asesu cychwynnol

Wedi’u cau yn ystod y cam asesu

Wedi’u cau yn y cam archwilwyr achosion neu gan y Pwyllgor Ymchwilio

Wedi’u cyfeirio at Bwyllgor Ymarfer

Os penderfynir bod addasrwydd i ymarfer gweithiwr cofrestredig yn ddiffygiol, gall y panel benderfynu:

- peidio â chymryd unrhyw gamau
- rhoi cerydd
- gosod amodau ar gofrestru
- atal cofrestriad dros dro
- tynnu enw unigolyn o gofrestr y deintyddion neu gofrestr y gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol.

Ceir proses apelio hefyd.

Yn ystod unrhyw gam o’r broses Addasrwydd i Ymarfer, pan fo honiad yn awgrymu y gallai gweithiwr deintyddol proffesiynol achosi niwed neu os bydd unrhyw resymau eraill er budd y cyhoedd, gallwn wneud cais am orchymyn interim i atal yr unigolyn hwnnw rhag ymarfer, neu i osod cyfyngiadau ar ei ymarfer, hyd nes y caiff yr achos ei ddatrys.

Dim ond mewn achosion difrifol y gwneir y ceisiadau hyn. Efallai y bydd gorchymyn interim yn cael ei ystyried yn angenrheidiol er diogelwch y cyhoedd:

- os bydd risg wirioneddol o niwed sylweddol i iechyd, diogelwch neu les claf, ymwelydd, cydweithiwr neu aelod arall o’r cyhoedd pe bai’r ymarferydd yn cael ymarfer yn ddigyfyngiad
- os bydd yn ofynnol er budd y cyhoedd mewn unrhyw ffordd arall i ddiogelu hyder y cyhoedd yn y proffesiwn a chynnal safonau proffesiynol priodol er lles y cyhoedd neu
- os bydd hynny er lles y gweithiwr cofrestredig sydd dan sylw.

Er mwyn sicrhau effeithiolrwydd ein penderfyniadau, craffir ar benderfyniadau a wneir ym mhob cam. Yn ogystal â goruchwyliaeth gan reolwyr, mae gennym nifer o ddulliau Sicrhau Ansawdd (SA) i sicrhau bod ein penderfyniadau yn gadarn, wedi’u rhesymu’n dda ac yn cyd-fynd â’n statud, ein rheolau a’n canllawiau. Maent yn cynnwys:

- craffu ar bob penderfyniad i gau achos gan ein swyddogaeth cydymffurfio fewnol
- craffu ar unrhyw benderfyniadau os bydd pryder ynghylch canlyniad y penderfyniad, neu’r broses a ddilynwyd i wneud y penderfyniad hwnnw trwy’r Grŵp Sicrhau Ansawdd. Bydd y grŵp hwn yn cynnal cyfarfodydd bob mis gydag aelod annibynnol a Chadeirydd Gweithredol sydd ddim yn ymwneud â maes Addasrwydd i Ymarfer. Gall y grŵp ei gwneud yn ofynnol i’r tîm priodol weithredu, ac os bydd angen, argymell bod y Cofrestrydd yn ceisio adolygiad o’r penderfyniad trwy gais ‘Rheol 9’ neu’n cyfeirio’r achos at yr Awdurdod Safonau Proffesiynol
- bydd Grŵp Craffu ar Benderfyniadau yn craffu ar 10% o’r holl benderfyniadau a ddewisir ar hap. Bydd y grŵp hwn yn cyfarfod bob chwarter, dan gadeiryddiaeth Cadeirydd Annibynnol, a gall fynnu bod penderfyniad yn cael ei adolygu yn yr un modd â’r Grŵp Sicrhau Ansawdd.
- byddwn yn comisiynu archwiliad allanol blynyddol o 160 o benderfyniadau gan drydydd parti annibynnol i graffu ar ein prosesau a’n cydymffurfiaeth â chanllawiau, yn ogystal ag ansawdd y broses o wneud penderfyniadau, y rhesymu a’r canlyniad ei hun.

Cyflwynir adroddiad ystadegol manylach ar dudalennau 72–85.

# 6 Strwythur y Cyngor a'r Pwyllgorau

## Strwythur y Cyngor

Mae gan y Cyngor 12 aelod: chwe aelod heb eu cofrestru a chwe gweithiwr deintyddol proffesiynol cofrestredig. Roedd y canlynol yn aelodau o'r Cyngor yn 2018:

| Aelodau cofrestredig | Aelodau heb gofrestru |
|---|---|
| Catherine Brady | William Moyes (Cadeirydd) |
| Jeyanthi John | Terry Babbs |
| Margaret Kellett | Geraldine Campbell |
| Caroline Logan | Anne Heal |
| Kirstie Moons | Sheila Kumar |
| Simon Morrow (o 1 Hydref 2018) | Crispin Passmore |
| Lawrence Mudford (tan 30 Medi 2018) | |

## Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor yn 2018

| Enw | Chwe | Maw | Mai | Meh | Gorff | Medi | Hyd | Rhag |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| William Moyes (Cadeirydd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Terry Babbs | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Catherine Brady | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Geraldine Campbell | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ |
| Anne Heal | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Jeyanthi John | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Margaret Kellett | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sheila Kumar | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Caroline Logan | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Kirstie Moons | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Simon Morrow | | | | | | | | ✓ |
| Lawrence Mudford | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Crispin Passmore | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ |

## Pwyllgorau statudol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

O dan Ddeddf Deintyddion 1984 (fel y'i diwygiwyd), mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gyfrifoldeb i ymdrin â honiadau sy'n ymwneud â diffyg o ran addasrwydd i ymarfer yn ymwneud ag aelodau o'r proffesiwn deintyddol.

Mae yna chwe phwyllgor statudol sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd fel yr amlinellir yn Adran 2 o Ddeddf Deintyddion 1984. Mae'r pwyllgorau'n cynnwys panelwyr annibynnol sy'n weithwyr cofrestredig a phobl sydd heb eu cofrestru. Nid yw aelodau'r Cyngor yn aelodau o'r pwyllgorau statudol. Mae'r pwyllgorau statudol yn atebol i'r Cyngor am eu perfformiad.

Dyma'r pwyllgorau statudol:

**Y Pwyllgor Ymchwilio (IC):** bydd yn ystyried honiadau o ddiffyg addasrwydd i ymarfer i bennu a ddylai honiadau o'r fath gael eu cyfeirio at un o'r tri phwyllgor ymarfer (y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol, y Pwyllgor Iechyd neu'r Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol) er mwyn cynnal ymchwiliad llawn. Caiff swyddogaethau'r Pwyllgor Ymchwilio eu dirprwyo i archwilwyr achosion yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol.

**Y Pwyllgor Gorchmynion Interim (IOC):** gall achos gael ei gyfeirio at y Pwyllgor hwn ar unrhyw adeg i ystyried a yw gorchymyn (megis gwaharddiad) yn erbyn cofrestriad gweithiwr deintyddol proffesiynol yn briodol cyn cynnal ymchwiliad llawn.

**Y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol:** bydd yn ystyried honiadau o gamymddwyn yn erbyn gweithiwr deintyddol proffesiynol i benderfynu a yw'r camymddwyn yn gyfystyr â diffyg o ran ei allu i ymarfer deintyddiaeth.

**Y Pwyllgor Iechyd:** bydd yn ystyried achosion ble mae'n ymddangos bod perfformiad gweithiwr deintyddol proffesiynol yn cael ei effeithio gan gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol.

**Y Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol:** bydd yn ystyried honiadau o berfformiad diffygiol yn erbyn gweithiwr deintyddol proffesiynol i benderfynu a yw'r diffyg yn gyfystyr â diffyg o ran ei allu i ymarfer deintyddiaeth.

**Y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru:** bydd yn ystyried apeliadau gan weithwyr deintyddol proffesiynol y gwrthodwyd eu cais i gael eu cynnwys ar y gofrestr, sydd wedi'u dileu o'r gofrestr neu heb gael eu hadfer i'r gofrestr (ond nid gan bwyllgor ymarfer).

Mae rhagor o wybodaeth am waith ac aelodau pwyllgorau statudol y Cyngor ar gael ar ein gwefan.[5]

Caiff aelodau'r pwyllgorau statudol eu penodi gan y **Pwyllgor Sicrhau Panelwyr Statudol (SPC)[6]**, sy'n goruchwylio'r gwaith o recriwtio, hyfforddi a rheoli perfformiad y pwyllgorau statudol. Aelodau'r SPC oedd Rosie Varley (Cadeirydd), Nigel Fisher, Martyn Green, a Tim Skelton.

[5] https://www.gdc-uk.org/about/who-we-are [cyrchwyd Mawrth 2019]

[6] Y Pwyllgor Apwyntiadau yn flaenorol, fel y cyfeirir ato yn Rheolau'r CDC (Cyfansoddiad y Pwyllgor) 2009. Newidiwyd yr enw yn 2016 i adlewyrchu cylch gorchwyl y pwyllgor yn well.

## Pwyllgorau anstatudol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Caiff y Cyngor ei gynorthwyo gan bedwar pwyllgor anstatudol:

| Pwyllgor | Aelodau'r Cyngor |
|---|---|
| **Pwyllgor Archwilio a Risg**<br>Bydd yn monitro ac yn herio cywirdeb y datganiadau ariannol, ac yn adolygu dulliau llywodraethu, rheolaeth fewnol, systemau rheoli risg a gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol y CDC. | Crispin Passmore (Cadeirydd)<br>Catherine Brady<br>Lawrence Mudford (tan 30 Medi 2018)<br>Simon Morrow (o 1 Hydref 2018)<br>Sheila Kumar<br>Aelod annibynnol |
| **Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad**<br>Bydd yn herio ac yn monitro perfformiad ariannol a pherfformiad arall. Mae'n cydweithio â'r tîm rheoli gweithredol i ddatblygu strategaeth ariannol a chynllun busnes y Cyngor, ac ynghylch amrywiaeth o gyfrifoldebau cysylltiedig yn cynnwys ystadau, pensiynau a buddsoddiadau. | Terry Babbs (Cadeirydd)<br>Margaret Kellett<br>Kirstie Moons<br>Anne Heal |
| **Pwyllgor Tâl**<br>Bydd yn sefydlu gweithdrefnau ar gyfer tâl y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu, y Tîm Rheoli Gweithredol, aelodau'r Cyngor a'r polisi cyffredinol ynghylch tâl staff. | Geraldine Campbell (Cadeirydd)<br>Anne Heal<br>Caroline Logan<br>Aelod annibynnol |
| **Bwrdd Polisi ac Ymchwil**<br>Bydd yn goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaeth, polisi a mentrau ymchwil. | Kirstie Moons (Cadeirydd)<br>Catherine Brady<br>Geraldine Campbell<br>Jeyanthi John<br>Margaret Kellett<br>Sheila Kumar (tan 31 Gorffennaf 2018)<br>Caroline Logan<br>Lawrence Mudford (tan 30 Medi 2018)<br>Simon Morrow (o 1 Hydref 2018) |

Aelodau annibynnol o bwyllgorau a wasanaethodd yn 2018:

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Archwilio a Risg | Jason Davies (tan 31 Mawrth 2018)<br>Rajeev Arya (o 17 Mai 2018) |
| Pwyllgor Tâl | Philippa Hird |

7

# 7 Adroddiad ar dâl

## Y Pwyllgor Tâl

Mae'r adroddiad ar dâl yn cwmpasu gweithgarwch yn 2018.

Fe wnaeth y Cyngor barhau i benodi Pwyllgor Tâl ar gyfer materion penodol sy'n ymwneud â thalu aelodau'r Cyngor, cymdeithion a chyfarwyddwyr gweithredol, ac ar gyfer polisi cyffredinol ynghylch tâl staff.

Cafodd y Pwyllgor ei Gadeirio gan Geraldine Campbell o 1 Hydref 2017.

Aelodau'r Pwyllgor o 1 Hydref 2017 oedd Geraldine Campbell, Anne Heal, Caroline Logan, a Philippa Hird fel aelod annibynnol. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu o fewn cylch gorchwyl penodol a bydd yn cynnal cyfarfodydd bedair gwaith y flwyddyn fel arfer.

## Tâl aelodau'r Cyngor

Mae tâl blynyddol y Cadeirydd yn cael ei bennu gan y pwyllgor ar sail cyfraddau cyffredinol swyddi tebyg a'r amser sy'n ofynnol i gyflawni'r gwaith. Yn Hydref 2013, penderfynwyd ar dâl o £55,000 y flwyddyn ar gyfer y Cadeirydd.

Mae aelodau'r Cyngor yn derbyn tâl ar gyfradd flynyddol, a chafodd hynny ei bennu ym mis Hydref 2013. Mae'n £15,000 y flwyddyn ag ychwanegiadau o £3,000 y flwyddyn ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau.

Caiff tâl aelodau'r Cyngor ei adolygu bob dwy flynedd. Cytunwyd ar y polisi Tâl ddiwethaf yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mai 2015 ac nid yw'r polisi wedi newid ers hynny. Fodd bynnag, adolygir y polisi yn ystod y flwyddyn sy'n dod fel rhan o adolygiad ehangach y Bwrdd o effeithlonrwydd.

## Tâl cyfarwyddwyr gweithredol

Er mwyn cefnogi un o'n huchelgeisiau strategol allweddol, sef 'parhau i ddatblygu sefydliad effeithiol ac effeithlon', rydym wedi ymrwymo i ddenu, datblygu a chadw gweithwyr hynod o ddawnus. Rydym yn datblygu fframweithiau cynllunio a pherfformiad sy'n sicrhau bod ein strategaeth pobl yn cyd-fynd ag amcanion strategol y CDC, gan ddatblygu'r gallu i sicrhau canlyniadau a sicrhau bod anghenion y dyfodol yn cael eu diwallu trwy gynllunio olyniaeth yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys 'tyfu ein rhai ein hunain' a chreu cyfleoedd i ddysgu (a datblygu) ym mhob rhan o'r sefydliad.

Mae dilyniant cyflog cyfarwyddwyr gweithredol yn dibynnu ar berfformiad unigolion a meincnodi cyflog yn allanol. Er bod y Prif Weithredwr, y Cofrestrydd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gwneud argymhellion ynghylch cyflog ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol, bydd

unrhyw godiadau cyflog, neu daliadau eraill, yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Tâl. Mae codiadau cyflog y Prif Weithredwr (fel y bo'n briodol) yn cael eu hargymell gan Gadeirydd y Cyngor a Remco a'u cymeradwyo gan y Cyngor yn unol â'r polisi tâl. Nid yw'r polisi tâl ar gyfer y Prif Weithredwr, y Cofrestrydd a'r Swyddog Cyfrifyddu a'r cyfarwyddwyr gweithredol yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer taliadau perfformiad.

Mae contract cyflogaeth y Prif Weithredwr, y Cofrestrydd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gofyn am gyfnod rhybudd terfynu o chwe mis gan y cyflogai neu'r cyflogwr. Mae contractau gweddill y cyfarwyddwyr gweithredol yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyflogwr neu'r cyflogai roi cyfnod rhybudd terfynu o dri mis ar ôl y cyfnod prawf.

Mae'r holl gyfarwyddwyr gweithredol yn aelodau naill ai o'r adran buddion diffiniedig neu adran cyfraniadau diffiniedig cynllun pensiwn y CDC.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd yn cael ei benodi'n uniongyrchol gan y Cyngor ac mae'n atebol i'r Cyngor. Mae ganddo awdurdod sydd wedi'i ddirprwyo gan y Cyngor i wneud penderfyniadau i'r graddau a ddisgrifir yn y datganiad llywodraethu. Mae'r datganiad yn nodi'n glir mai rôl y Cyngor yw pennu cyfeiriad y CDC, yn unol â'i genhadaeth a'i ddiben, gan sicrhau bod systemau ar waith i'w alluogi i fonitro perfformiad a sicrhau bod y tîm gweithredol yn atebol, a sicrhau cywirdeb.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd wedi'i ddynodi yn Swyddog Cyfrifyddu'r CDC gan Swyddfa'r Cyfrin Gyngor ac mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau yn rhinwedd y swydd honno, fel y nodir ym Mhennod 3 Rheoli Arian Cyhoeddus, yn annibynnol ar y Cyngor.

Mae manylion llawn y taliadau sydd wedi'u datgelu ar gyfer y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd i'w gweld yn llawn isod, ynghyd â datgeliad o enillion trethadwy, ac eithrio unrhyw daliadau iawndal, mewn bandiau cyflog ar gyfer y cyfarwyddwyr gweithredol eraill.

Ar gyfer yr aelod staff â'r cyflog uchaf yn ystod y flwyddyn, sef y Prif Weithredwr, y Cofrestrydd a'r Swyddog Cyfrifyddu, Ian Brack, roedd y tâl a'r cyfraniadau pensiwn cyflogwr fel a ganlyn:

| Enillion | | Buddion trethadwy | | Cyfanswm tâl | | Cyfraniadau pensiwn | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2018<br>£000 | 2017<br>£000 | 2018<br>£000 | 2017<br>£000 | 2018<br>£000 | 2017<br>£000 | 2018<br>£000 | 2017<br>£000 |
| 140 | 140 | - | - | 140 | 140 | 8 | 8 |

Mae Ian Brack wedi dewis yn bersonol i beidio â chael codiadau cyflog blynyddol ers 2016. Y cyflog tybiannol ar gyfer rôl y Prif Weithredwr, y Cofrestrydd a'r Swyddog Cyfrifyddu, pe bai dyfarniadau cyflog wedi'u cymhwyso yn ôl cyfradd y farchnad yn y raddfa gyflog, yw £155,000–£160,000 (2017: £150,000–£155,000).

Roedd enillion trethadwy a chyfraniadau pensiwn cyflogwr y cyfarwyddwyr gweithredol eraill a wasanaethodd yn 2017, gan gynnwys codiadau cyflog neu daliadau eraill (ond ac eithrio unrhyw daliadau iawndal, y ceir eu manylion isod), yn perthyn i'r bandiau cyflog canlynol:

| | | Enillion | | Cyfraniadau pensiwn |
|---|---|---|---|---|
| | 2018<br>£000 | 2017<br>£000 | 2018<br>£000 | 2017<br>£000 |
| Graham Masters | - | 30–35 | - | 5–7.5 |
| Kate Husselbee | - | 1–5 | - | - |
| Gurvinder Soomal+ | 120–125 | 110–115 | 25–27.5 | 25–27.5 |
| Jonathan Green++ | - | 120–125 | - | 20–22.5 |
| Matthew Hill | 120–125 | 115–120 | 5–7.5 | 5–7.5 |
| Sue Steen | - | 60–70 | - | - |
| Roberta Davis | 120–125 | 65–70 | 5–7.5 | 2.5–5 |
| Thomas Scott | 110–115 | - | 10–12.5 | - |

+ yn cynnwys adwerthu gwyliau blynyddol heb eu hawlio gwerth £1,971 yn 2017. Bellach, ni all cyflogeion adwerthu gwyliau blynyddol heb eu hawlio.

++ yn cynnwys adwerthu gwyliau blynyddol heb eu hawlio gwerth £2,144 yn 2017. Bellach, ni all cyflogeion adwerthu gwyliau blynyddol heb eu hawlio.

Mewn termau cyfun, roedd y tâl i'r cyfarwyddwyr gweithredol a wasanaethodd yn ystod 2017 yn gyfanswm o £678,000 (2017: £657,000).

Roedd tâl y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf, sef y Prif Weithredwr, y Cofrestrydd a'r Swyddog Cyfrifyddu, 3.75 gwaith (2017: 3.8 gwaith) yn uwch na thâl canolrif y gweithlu, sef £37,304 (2017: £36,418).

Ni thalwyd unrhyw fuddion mewn nwyddau i gyfarwyddwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn

## Polisi tâl staff

Datblygir y polisi ynghylch tâl staff gan y Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol, mewn cydweithrediad â'r Prif Weithredwr, y Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu a'r cyfarwyddwyr gweithredol, cyn iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Tâl.

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi ymrwymo i egwyddor cyflog cyfartal am waith o werth cyfartal i bob gweithiwr cyflogedig ac mae'n ceisio sicrhau bod ei systemau cyflog yn deg ac yn ddiduedd. Mae gennym ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau a chynnal Adolygiadau Cyflog Cyfartal i nodi a dileu unrhyw fylchau cyflog na ellir eu hesbonio'n wrthrychol.

Parhaodd trefniadau pensiwn i gael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod cynllun pensiwn priodol a fforddiadwy yn ei le. Mae'r CDC yn dal i weithredu cynllun pensiwn buddion diffiniedig i staff ond cafodd yr adran hon o'r cynllun ei chau i staff newydd sy'n ymuno o 1 Gorffennaf 2016 ymlaen. Er mwyn sicrhau bod y cynllun buddion diffiniedig yn cael ei ariannu yn well i fodloni ei rwymedigaethau, cytunodd y Cyngor i gynyddu cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr ac i ychwanegu at y gronfa yn ystod 2018. Mae'r CDC yn gweithredu cynllun cyfraniadau diffiniedig hefyd sy'n seiliedig ar ymddiriedolaeth ac yn bodloni gofynion ymrestru awtomatig ac yn rhagori arnynt.

## Niferoedd staff a manylion enillion

Dyma nifer cyfartalog y gweithwyr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn, gan gynnwys y cyfarwyddwyr gweithredol, yn ystod y flwyddyn, wedi'i ddadansoddi yn ôl swyddogaeth:

| | Staff a gyflogir yn barhaol | Eraill | 2018 Cyfanswm | 2017 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Addasrwydd i ymarfer a gwrandawiadau | 94 | 22 | 116 | 125 |
| Cofrestru | 44 | 17 | 61 | 54 |
| Datblygu Sefydliadol | 77 | 14 | 91 | 83 |
| Strategaeth | 26 | 6 | 32 | 24 |
| Adnoddau Corfforaethol | 44 | 14 | 58 | 49 |
| **Cyfanswm** | **285** | **73** | **358** | **335** |

Dyma nifer y staff, gan gynnwys y cyfarwyddwyr gweithredol, y mae eu henillion trethadwy, ac eithrio unrhyw daliadau iawndal ond gan gynnwys gwerth gwyliau heb eu hawlio ar ddiwedd 2018, oedd yn perthyn i fandiau cyflog uwch:

| | 2018 Cyfanswm | 2017 Cyfanswm |
|---|---|---|
| £60,000 ond o dan £70,000 | 30 | 19 |
| £70,000 ond o dan £80,000 | 8 | 7 |
| £80,000 ond o dan £90,000 | 2 | 3 |
| £90,000 ond o dan £100,000 | 2 | 2 |
| £100,000 ond o dan £110,000 | 1 | - |
| £110,000 ond o dan £120,000 | 1 | 3 |
| £120,000 ond o dan £130,000 | 3 | - |
| £130,000 ond o dan £140,000 | - | - |
| £140,000 ond o dan £150,000 | 1 | 1 |

Roedd 15 aelod staff o'r rhestr uchod yn aelodau o adran buddion diffiniedig y cynllun pensiwn (2017: 11 aelod staff) ac roedd 43 aelod staff yn aelodau o adran cyfraniadau diffiniedig y cynllun pensiwn (2017: 27 aelod staff). Y pensiwn a gronnwyd gan y gweithiwr cyflogedig ar y cyflog uchaf o dan adran cyfraniadau diffiniedig y cynllun oedd £8,400 (roedd y pensiwn a gronnwyd gan y gweithiwr cyflogedig ar y cyflog uchaf yn 2017 o dan adran cyfraniadau diffiniedig y cynllun yn £8.400).

## Iawndal am golli swydd

Gadawodd 30 aelod o staff o dan delerau diswyddo yn ystod 2018. Cawsant daliad iawndal oedd yn amrywio o £4,332 i £40,000.

| Band cost pecynnau gadael | Nifer yn gadael |
|---|---|
| <£10,000 | 18 |
| £10,000–£25,000 | 9 |
| £25,000–£50,000 | 3 |
| Cyfanswm y pecynnau gadael | 30 |
| **Cyfanswm y gost /£** | **£358,362** |

## Bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn gyfartaledd[7] o 13.3% (canolrif 18.4%) o blaid dynion.[8] Mae hyn yn cymharu â meincnod allanol o ganolrif o 18.4% (Ebrill 2017) ar draws pob diwydiant.[9] Cafodd 8.4% o staff gwrywaidd a 7.8% o staff benywaidd fonws, ar ffurf taliad cydnabyddiaeth oedd yn werth £50 neu fwy (Ebrill 2017 – Mawrth 2018), ac roedd y bonysau a dalwyd 18.3% yn uwch ar gyfartaledd i fenywod (canolrif 17.9%).

## Ffioedd a threuliau aelodau'r Cyngor a dalwyd:

| | Ffioedd aelodau | | Treuliau Aelodau | | Treth ac YG | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2018 £ 000 | 2017 £ 000 | 2018 £ 000 | 2017 £ 000 | 2018 £ 000 | 2017 £ 000 | 2018 £ 000 | 2017 £ 000 |
| Catherine Brady | 15 | 15 | 1 | 1 | 2 | 1 | 18 | 17 |
| Terry Babbs | 18 | 18 | 1 | 1 | 2 | 2 | 21 | 21 |
| Geraldine Campbell | 18 | 16 | 5 | 5 | 3 | 3 | 26 | 24 |
| Anne Heal* | 15 | 4 | 0 | 0 | 1 | 0 | 16 | 4 |
| Jeyanthi John* | 15 | 4 | 2 | 0 | 3 | 1 | 20 | 5 |
| Margaret Kellett | 15 | 15 | 4 | 4 | 4 | 5 | 23 | 24 |
| Sheila Kumar* | 15 | 4 | 0 | 0 | 1 | 0 | 16 | 4 |
| Caroline Logan* | 15 | 4 | 3 | 1 | 2 | 1 | 20 | 6 |
| Kirstie Moons | 18 | 16 | 4 | 7 | 5 | 8 | 27 | 31 |
| Simon Morrow*** | 4 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 6 | 0 |
| William Moyes | 55 | 55 | 13 | 16 | 21 | 13 | 89 | 84 |
| Crispin Passmore* | 18 | 5 | 1 | 0 | 2 | 1 | 21 | 6 |
| Lawrence Mudford**** | 11 | 15 | 2 | 1 | 2 | 2 | 15 | 18 |
| Rosemary Carter** | 0 | 14 | 0 | 4 | 0 | 3 | 0 | 21 |
| Alan MacDonald** | 0 | 14 | 0 | 5 | 0 | 3 | 0 | 22 |
| Jayendra Patel** | 0 | 11 | 0 | 3 | 0 | 2 | 0 | 16 |
| David Smith** | 0 | 11 | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 | 15 |
| Neil Stevenson** | 0 | 14 | 0 | 6 | 0 | 7 | 0 | 27 |
| **Cyfanswm** | **232** | **235** | **37** | **56** | **49** | **54** | **318** | **345** |

* O 1 Hydref 2017

** Tan 30 Medi 2017

*** O 1 Hydref 2018

**** Tan 30 Medi 2018

Mae treuliau sy'n codi'n uniongyrchol o gyflawni dyletswyddau yn cael eu had-dalu yn unol â pholisi a gweithdrefnau treuliau'r CDC ar gyfer aelodau'r Cyngor. Maent yn cydnabod rôl genedlaethol y CDC sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i o leiaf un aelod fod yn gweithio ym mhob un o bedair gwlad yn y DU; a gwahanol gyfrifoldebau aelodau unigol y Cyngor. Mae'r dreth incwm a'r Yswiriant Gwladol sy'n daladwy yn cynnwys Yswiriant Gwladol y cyflogwr ar ffioedd Aelodau ac ar gyfer treuliau, yr ystyrir eu bod yn fuddion trethadwy o fath arall.

Mae'r ffigurau yn y tablau uchod, a chyfrifo'r lluosrif cyflog, wedi bod yn destun archwiliad.

**Ian Brack**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

15 Hydref 2019

[7]Cyfartaledd yw'r cymedr a'r canolrif yw'r pwynt canol.

[8]Cymerwyd y ffigurau o ddyddiad cipolwg 5 Ebrill 2018 ar gyfer adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

[9]Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion: dros dro 2018. Casglwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

8

# 8 Adroddiad cyfrifoldeb cymdeithasol

## Caffael

Mae ein dulliau caffael yn seiliedig ar brosesau a gweithdrefnau cadarn i sicrhau arfer gorau a gwerth am arian. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb i gaffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith sy'n cynnig gwerth am arian gan leihau effeithiau ar yr amgylchedd, ac ar yr un pryd, sicrhau'r gwerth cymdeithasol gorau posibl a sicrhau triniaeth foesegol i bobl sy'n rhan o'n cadwyn gyflenwi. Mae'r CDC yn defnyddio prosesau a gweithdrefnau cadarn i gyflawni arfer gorau trwy ddefnyddio fframweithiau'r sector cyhoeddus a/neu'r llywodraeth lle bo hynny'n briodol, neu'n tendro'n uniongyrchol yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 a deddfwriaeth berthnasol arall. Mae'r holl weithgarwch caffael yn cael ei fonitro i sicrhau bod ei ddull yn seiliedig ar egwyddorion sylfaenol didwylledd a thryloywder, cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol.

## Iechyd a diogelwch

Mae'r CDC yn hyrwyddo amgylchedd iach a heb niwed i'r holl staff ac ymwelwyr. Bydd iechyd a diogelwch yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Tîm Rheoli Gweithredol a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.

Adolygwyd trefniadau Iechyd a Diogelwch y CDC gan archwilwyr mewnol yn ystod 2018. Canfu'r archwiliad fod y fframwaith rheoli sydd yn ei le yn foddhaol heb unrhyw wendidau rheoli sylfaenol. Fodd bynnag, fe wnaeth nodi rhai eitemau i'w gwella gan gynnwys adolygiad o'r cylch gorchwyl, a swyddogaeth ac aelodaeth y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch. Mae'r adolygiad hwn yn mynd rhagddo, a bydd lles yn cael ei ychwanegu at ei gyfrifoldebau yn ystod 2019.

Agorodd canolbwynt gweithredol newydd yn Birmingham ym mis Hydref 2018. Rydym wedi creu amgylchedd gwaith bywiog a chydweithredol sydd â thechnoleg alluogol a dodrefn wedi'u cynllunio'n ergonomegol. Mae asesiad risg tân, asesiad risg cyffredinol ac asesiad cydymffurfiaeth statudol wedi cael eu cynnal ar gyfer swyddfa Birmingham, ac fe wnaeth hynny gadarnhau fod gan y swyddfa risg isel ym mhob maes.

Yn ystod y flwyddyn, cofnodwyd chwe digwyddiad bychan ar draws y ddau safle, ac roedd dau o'r rhain yn achosion o afiechyd.

Mae gan y CDC ymrwymiad i hunanofal. Roedd iechyd meddwl a lles yn bynciau allweddol yn ystod ein Hwythnos Dysgu yn y Gwaith ym mis Mai 2018. Mynychodd wyth o staff y CDC gwrs hyfforddi deuddydd ac maent bellach

yn gynorthwywyr cymorth cyntaf iechyd meddwl ardystiedig. Mae strategaeth yn cael ei datblygu ac rydym wedi llofnodi'r addewid Amser i Newid i sicrhau bod iechyd meddwl a lles yn parhau i fod yn flaenoriaeth nawr ac yn y dyfodol.

## Amgylcheddol

Mae'r CDC wedi ymrwymo i hyrwyddo a datblygu perfformiad amgylcheddol.

Mae ein pencadlys yn Llundain wedi'i gynllunio'n gynaliadwy ac mae'n defnyddio ynni yn effeithlon. Cafwyd Sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni heb unrhyw argymhellion ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni.

Dyluniwyd ein swyddfa yn Birmingham i hwyluso ailgylchu cymaint o ffrydiau gwastraff â phosibl. Rydym wedi adeiladu nifer o bwyntiau ailgylchu yn ein ceginau.

Rydym hefyd yn annog beicio i'r gwaith trwy gynnig cyfleusterau yn y gweithle gan gynnwys cynllun beicio i'r gwaith, rheseli beiciau diogel mewnol ac ystafelloedd cawodydd yn y ddau safle.

Anogir staff i ddefnyddio sganio a ffeilio electronig yn y ddau safle. Mae Pwyllgorau'r CDC yn defnyddio dogfennau electronig yn lle bwndeli papur. Anfonir adroddiadau o bryd i'w gilydd at staff yn manylu ar nifer y tudalennau sy'n cael eu hargraffu fel rhan o ymgyrch i leihau gwastraff.

Yn 2018, cafwyd gostyngiad o 10.58% yn nifer y tudalennau a argraffwyd. Rydym yn parhau i ailgylchu'r holl wastraff cyfrinachol a gwastraff cymysg.

## Staff

Cyflogai'r CDC bron i 360 aelod o staff (ein cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd) yn 2018 (roedd 353 ym mis Rhagfyr 2017). Mae'r cynnydd yn ymwneud â nifer o swyddi sy'n cael eu dyblygu ym meysydd Cofrestru ac Adnoddau Corfforaethol i gynorthwyo i sefydlu canolbwynt gweithredol yn Birmingham.

## Rhyw ac oedran

Mae 60% o'r gweithlu yn fenywod (2017: 62%). Mae 18.5% o'r gweithlu yn 50 mlwydd oed neu'n hŷn (2017: 15%).

## Ethnigrwydd

Mae'r data sydd ar gael yn dangos bod 47% (2017: 43%) o'n staff o gefndir gwyn a 21% (29% (2017: 21%) o gefndir lleiafrifoedd ethnig. Nid oes gennym ddata ar gyfer y 24% (2015: 36%) arall, oherwydd mae staff yn gyfrifol am nodi eu data cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hunain yn ein cronfa ddata AD, ac nid yw nodi data cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ofyniad gorfodol. Roedd gwaith i annog staff i ddiweddaru eu data cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn mynd rhagddo yn 2018 a bydd yn parhau yn 2019. Er bod datgan data cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y gweithlu yn wirfoddol, rydym wedi gweld cynnydd bychan yn nifer y staff sy'n rhannu'r data hyn. Bydd data cywir yn sicrhau bod ein gwaith monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gyson a bod dadansoddi priodol yn digwydd fel bod mentrau ac ymyriadau yn ymwneud â darparu gwasanaethau a'r gweithlu yn cael eu llywio gan wybodaeth.

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Credwn y dylai cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant fod yn rhywbeth y dylai pawb weithio i'w gyflawni. Adolygwyd gwaith y CDC i ymgorffori ei gynllun gweithredu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gan archwilwyr allanol yn ystod 2018. Nododd yr archwiliad bod fframwaith rheoli sy'n gadarn yn gyffredinol yn ei le i gynorthwyo i ymgorffori'r cynllun gweithredu heb unrhyw wendidau rheoli sylfaenol. Nododd yr archwiliad welliannau i'w gwneud o ran cyfathrebu a pherchnogaeth a fyddai'n hyrwyddo ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn effeithiol fel rhywbeth sy'n waith arferol i'r sefydliad. Yn y dyfodol, bydd y strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio sy'n datblygu, a bydd cynllun gweithredu newydd yn cael ei ddatblygu i gynorthwyo i'w gyflawni.

## Ymgysylltu â staff

Mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol fforwm staff sy'n cyfarfod bob yn ail fis. Mae'n cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr, ac yn cael ei fynychu gan y Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol. Mae'r fforwm yn cynrychioli holl dimau'r CDC. Bydd y fforwm yn trafod ystod o faterion staff, gan gynnwys adolygu polisïau AD cyfredol a chyflwyno rhai newydd. Os cynigir newidiadau a allai effeithio ar yr holl staff, cynhelir cyfarfodydd ymgynghori, pa un ai a fydd ymgynghori ffurfiol yn ofyniad cyfreithiol neu beidio. Bydd hefyd yn ceisio cynnal gweithdai a grwpiau ffocws lle gellir datblygu syniadau ynghylch agweddau a nodwyd ar y Strategaeth Pobl neu o ganlyniadau'r Arolwg Ymgysylltu (neu'r ddau).

Yn ystod 2018, fe wnaeth y fforwm gyfraniad allweddol at y broses ymgynghori ar y cyd ynghylch diswyddiadau sy'n deillio o'r Strategaeth Ystadau – y gwaith y mae'r CDC wedi'i wneud i greu ein canolbwynt gweithredol yn Birmingham. Cynyddodd y fforwm o ran maint, o 14 i 21 aelod, er mwyn sicrhau cynrychiolaeth ddigonol o'r grwpiau staff yr effeithir arnynt.

Gellir defnyddio sesiynau briffio ar gyfer yr holl staff i gyflwyno negeseuon allweddol gan y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd a'r Tîm Rheoli Gweithredol. Yn ogystal, defnyddiwyd digwyddiadau oedd yn agored i'r cyhoedd i rannu negeseuon am waith sefydliadol pwysig, megis yr adolygiad hollgynhwysfawr o Addasrwydd i Ymarfer

a Shifting the Balance. Ym mis Tachwedd 2018, cafodd digwyddiad oedd yn agored i'r cyhoedd yn Llundain ei rannu â staff yn Birmingham trwy gyfrwng cyswllt fideo.

Parhawyd i gyflawni camau gweithredu yn deillio o arolwg o fodlonrwydd staff a wnaed yn 2017 trwy gydol 2018. Mae themâu allweddol yr arolwg wedi'u hymgorffori mewn ffrydiau gwaith yn y strategaeth ar gyfer datblygu pobl a'r sefydliad. Yn ystod wythnos Dysgu yn y Gwaith ym mis Mai, gwelwyd nifer o ddigwyddiadau ar thema 'dysgu bob dydd' a chychwynwyd y paratoadau ar gyfer ein gwaith lles meddyliol.

Bwriedir cynnal arolwg ar raddfa fawr o fodlonrwydd staff yn ystod 2019. Bydd hyn yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i sicrhau bod arolygon sylweddol o fodlonrwydd staff yn cael eu cynnal bob dwy flynedd. Yn ychwanegol, rydym yn bwriadu cynnal arolygon mewn ffordd fwy hyblyg ac wedi'u targedu, e.e. arolygon aml, ar raddfa fechan, ynghylch pynciau penodol. Byddai hyn yn sicrhau bod y data a gasglwn yn berthnasol ac yn gynrychioliadol ac yn ein galluogi i weithredu'n uniongyrchol mewn ymateb i beth fydd staff yn ei ddweud wrthym. Yn ychwanegol, mae arolygon sy'n fyw trwy'r adeg neu sydd ar gael ar-lein wedi cael eu profi gyda staff yn Birmingham, gan eu galluogi i ddarparu adborth, sylwadau a syniadau yn anffurfiol pan fyddant yn codi.

Cyhoeddir cylchlythyr mewnol misol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff, ac anfonnir gohebiaeth arbennig at yr holl staff ynghylch pynciau penodol yn ôl y gofyn. Mae diweddariad misol penodol ynghylch y gwaith adleoli wedi cael ei anfon at staff, yn cynnwys diweddariadau am y cynnydd a wneir gennym i ddatblygu ein canolbwynt gweithredol yn Birmingham a newidiadau cysylltiedig eraill i broffil ein hystadau.

Cynigir sesiynau galw heibio misol gan y Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol, sy'n galluogi staff o bob rhan o'r sefydliad i gael trafodaeth breifat ynghylch unrhyw adborth neu syniadau sydd ganddynt.

# 9 Adolygiad ariannol

**Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2018.**

## Dadansoddiad o Incwm a Gwariant yn ôl swyddogaeth rheoleiddio

Mae'r cyfrifon ar dudalennau 40–70 yn dangos ein hincwm a'n gwariant gan ddefnyddio fformat cyfrifon safonol. Er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol i randdeiliaid, mae'r tabl isod yn dangos ein perfformiad yn ôl swyddogaeth rheoleiddio:

| | 2018 £000 | 2018 £000 | 2017 £000 | 2017 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | |
| Cofrestru | 45,416 | | 44,877 | |
| Cofrestru Tramor | 1,588 | | 1,389 | |
| Incwm gweithredu arall | 14 | | 3 | |
| | | **47,018** | | **46,269** |
| **Gwariant**<br>**Gweithgareddau rheoleiddio** | | | | |
| Addasrwydd i Ymarfer a Gwrandawiadau | 17,308 | | 20,258 | |
| Cofrestru | 3,204 | | 2,959 | |
| Arholiad Cofrestru Tramor | 1,671 | | 1,458 | |
| Polisi a Rheoli Rhanddeiliaid | 2,050 | | 1,264 | |
| Llywodraethu | 1,703 | | 1,413 | |
| Rhagoriaeth Weithredol | 1,128 | | 878 | |
| Sicrhau Ansawdd | 698 | | 667 | |
| Gwasanaeth Cwynion Deintyddol | 435 | | 505 | |
| | | **28,196** | | **29,402** |
| **Gweithgareddau cynorthwyo** | | | | |
| Cyllid, AD a Phrif Swyddog Gweithredol | 4,010 | | 4,225 | |
| Gwasanaethau Adeiladau a Swyddfeydd | 1,960 | | 2,009 | |
| Ystadau | 2,291 | | - | |
| Technoleg Gwybodaeth | 2,465 | | 2,285 | |
| Dibrisiant ac Amorteiddiad | 1,061 | | 1,064 | |
| | | **11,787** | | **9,583** |
| **Cyfanswm y gwariant** | | **39,983** | | **38,986** |
| Incwm o fuddsoddiadau | | 294 | | 114 |
| Enillion/(colled) heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau | | (1,056) | | 189 |
| **Gwarged/(Diffyg) cyn treth** | | **6,273** | | **7,586** |
| Treth | | (8) | | (51) |
| **Gwarged/(Diffyg) a gadwyd ar ôl treth** | | **6,265** | | **7,535** |

Mae ffigurau cymharol 2017 wedi'u hailddatgan o ganlyniad i fabwysiadu 'IFRS 15, Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid' am y tro cyntaf. Mae hyn wedi arwain at ddyrannu'r ffioedd a dderbynnir gan weithwyr proffesiynol cofrestredig y proffesiynau gofal deintyddol i'r cyfnod perthnasol (Gorffennaf 2018 i Fehefin 2019). Rydym hefyd wedi diweddaru ein dull o ymdrin â chostau gwasanaethau corfforaethol a gategoreiddiwyd yn flaenorol i'w dyrannu i'r gweithgarwch rheoleiddio sy'n dylanwadu'n uniongyrchol arnynt.

Ariennir y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn bennaf gan ffioedd a delir gan ddeintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol sy'n gorfod cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn unol â Deddf Deintyddion 1984, er mwyn ymarfer deintyddiaeth yn y Deyrnas Unedig. Bydd gweithwyr deintyddol proffesiynol yn talu ffioedd i ni hefyd er mwyn cadw eu henwau ar ein rhestrau o arbenigwyr.

## Dadansoddiad o incwm

Cafwyd cynnydd o £0.8 miliwn yng nghyfanswm yr incwm gweithredol yn ystod y flwyddyn (2017: £46.3 miliwn). Roedd hyn yn deillio o'r canlynol:

- 42 o ddeintyddion blwyddyn gyntaf ychwanegol yn cofrestru
- 414 o ddeintyddion ychwanegol yn adnewyddu eu cofrestriad
- 1,160 o weithwyr gofal deintyddol proffesiynol ychwanegol yn adnewyddu eu cofrestriad
- incwm a gynhyrchwyd o'n buddsoddiadau a gwerthu asedau ar ddiwedd eu hoes economaidd ddefnyddiol.

## Dadansoddiad o wariant

Cafwyd cynnydd o £1 miliwn i £40.0 miliwn yng nghyfanswm y gwariant yn 2018 (2017: £39.0 miliwn); dyma'r newidiadau sylweddol (a ddiffinir fel amrywiannau dros £0.5 miliwn) i'n gwariant yn ystod 2018:

- cynnydd o £0.8 miliwn mewn costau polisi a rheoli rhanddeiliaid, gan adlewyrchu ein ffocws cynyddol ar Shifting the Balance ac ailstrwythuro adnoddau polisi yn y Gyfarwyddiaeth Strategaeth.
- £2.3 miliwn a wariwyd ar gam cyntaf ein Strategaeth Ystadau. Bydd y rhaglen waith hon yn trosglwyddo rhai swyddogaethau i'n swyddfa newydd yn Birmingham a rhagwelir y bydd hyn yn sicrhau arbedion net gwerth oddeutu £50 miliwn dros 15 mlynedd.
- gwrthbwyswyd hyn gan ostyngiad o £3.0 miliwn yng nghyfanswm y costau Addasrwydd i Ymarfer a Gwrandawiadau o ganlyniad i:
  - ostyngiad o 13% mewn achosion newydd, o 1,896 yn 2017 i 1,642 yn 2018.
  - gostyngiad o 20% yn nifer yr achosion yn arwain at wrandawiad, o 327 yn 2017 i 260 yn 2018.
  - gostyngiad o 30% yn staff addasrwydd i ymarfer a gwrandawiadau, o 157 aelod staff ar 31 Rhagfyr 2017 i 109 aelod staff ar 31 Rhagfyr 2018.

Trwy gydol 2018, parhaodd y CDC â mentrau i sicrhau arbedion effeithlonrwydd, megis buddsoddi yn ein Strategaeth Ystadau. Yn 2018, fe wnaethom gyflawni gwerth £0.2 miliwn o arbedion effeithlonrwydd newydd yn ystod y flwyddyn. Yn ychwanegol, fe wnaethom sicrhau gwerth £6.5 miliwn o arbedion parhaus o brosiectau a ddechreuwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol. Rydym felly wedi cyflawni cyfanswm arbedion effeithlonrwydd blynyddol gwerth £6.7 miliwn yn 2018, sy'n cynrychioli 16% o'n sylfaen costau ar gyfer 2018. Mae cyfanswm yr arbedion cronnus dros y cyfnod o bum mlynedd hyd at fis Rhagfyr 2018 yn £12.5 miliwn.

Mae'r CDC yn cyfyngu'r broses o adrodd ar arbedion a gyflawnir gan fentrau unigol i uchafswm o 5 mlynedd Trwy gydol y broses o wneud arbedion effeithlonrwydd, mae ystyriaeth ofalus wedi'i rhoi i sicrhau nad yw gweithredu unrhyw fesurau arbedion yn peryglu diogelwch y cyhoedd. Mae'r CDC yn defnyddio'r arbedion hyn i sicrhau dichonolrwydd sefydliadol trwy gynyddu ein cronfeydd wrth gefn i sefyllfa gynaliadwy, a thrwy ariannu rhaglenni sy'n buddsoddi mewn mesurau i sicrhau diogelwch y cyhoedd yn fwy effeithlon trwy leihau costau a baich gorfodi rheoleiddiol.

## Rhagolygon

Yn 2014, gofynnodd y CDC am ddiwygiadau deddfwriaethol a gafodd gydsyniad yn 2016 drwy orchymyn adran 60, ac fe wnaeth hynny ganiatáu i ni gyflwyno gwelliannau sylweddol i'n prosesau Addasrwydd i Ymarfer. Yn 2019, bydd ein Hadolygiad Hollgynhwysfawr o Addasrwydd i Ymarfer yn dod i ben. Mae'r adolygiad hwn yn nodi ac yn cyflawni prosesau newydd a symlach wrth gyflawni ein strategaeth gorfforaethol a'n hymrwymiad ehangach, a fynegir yn Shifting the Balance.

Yn 2017, penderfynodd y CDC symud swyddi ar draws ein gwasanaethau Cofrestru, Addasrwydd i Ymarfer a chymorth gweithredol i Birmingham fel rhan

o'n Strategaeth Ystadau. Erbyn diwedd 2019, bydd oddeutu 170 o swyddi wedi'u symud i Birmingham. Mae pencadlys a chyfleusterau gwrandawiadau'r CDC yn parhau yn Llundain. Mae ein rhagamcanion presennol yn nodi y bydd y rhaglen hon yn sicrhau arbedion net gwerth oddeutu £50 miliwn dros 15 mlynedd, a bydd ad-daliad ar ein buddsoddiad yn cael ei gyflawni ym mlwyddyn pedwar. Ar ddyddiad yr adroddiad, rydym yn dal yn hyderus y bydd y buddion rhagamcanol yn cael eu cyflawni.

Rhagwelir y bydd arbedion posibl yn 2019 yn deillio o fentrau a gychwynnwyd yn ystod y pedair blynedd flaenorol yn werth oddeutu £6.5 miliwn. Byddwn yn parhau i sicrhau nad yw'r broses o nodi arbedion effeithlonrwydd yn peryglu ein gwaith diogelu'r cyhoedd.

## Cronfa bensiwn

Yn unol â'r safon adrodd ariannol ar gyfer costau pensiwn, IAS 19, fe wnaeth actiwari'r cynllun pensiwn, Quantum Advisory, brisio adran buddion diffiniedig ein cynllun pensiwn ar 31 Rhagfyr 2018. Mae manylion llawn eu gwerthusiad a'r rhagdybiaethau ar gael yn nodyn 20 y cyfrifon hyn.

Cynhaliwyd prisiad teirblwydd o adran buddion diffiniedig y cynllun pensiwn ar 1 Ebrill 2018, gan nodi dirywiad yng ngweddill lefel cyllid actiwaraidd i £0.3 miliwn. Mae'r dirywiad hwn yn bennaf oherwydd gwaethygu amgylchiadau'r farchnad, sef enillion stociau gilt yn gostwng a chwyddiant cynyddol. Argymhellodd y prisiad hwn y dylid gosod lefelau cyfraniad y cyflogwr at adran buddion diffiniedig y cynllun ar lefel o 22.9%, ac y dylai hynny ddod i rym o 1 Ebrill 2019 a pharhau tan y prisiad teirblwydd nesaf. Ym mis Rhagfyr 2018, cymeradwyodd y Cyngor gyfraniad cyflogwr unwaith ac am byth ychwanegol gwerth £2.3 miliwn at y cynllun i wneud iawn am effaith croniad yn y dyfodol. O ganlyniad i'r cyfraniad, mae cyfraniadau'r cyflogwr wedi gallu cael eu gosod ar 20.3% o 1 Ebrill 2019.

Ar 31 Rhagfyr 2018, roedd gan y cynllun warged o £3.9 miliwn yn seiliedig ar y tybiaethau IAS 19 a fabwysiadwyd. Dan ofynion 'IFRIC 14: Y Cyfyngiad ar Ased Budd Diffiniedig, y Gofynion Ariannu Lleiaf a'u Rhyngweithiad', gallai'r CDC orfod cyfyngu ar y gwarged mewn datganiadau ariannol os na fyddai'n gallu sicrhau'r budd economaidd llawn o'r gwarged hwnnw. O dan delerau ac amodau'r cynllun, byddai'r CDC yn gallu sicrhau'r budd economaidd llawn o'r gwarged naill ai trwy seibiant cyfraniadau llawn neu trwy leihau ei gyfraniadau yn y dyfodol. Felly, nid oes cyfyngiad ar y gwarged yr adroddir amdano.

## Darpariaethau

Fel rhan o'r gwaith o gyflawni ein strategaeth Ystadau, fe wnaethom agor canolbwynt gweithredol newydd yn Birmingham ym mis Hydref 2018. Mae hyn wedi arwain at adleoli swyddi o'n Swyddfa yn Llundain i Birmingham, ac mae hynny'n cael ei gyflawni mewn dau gam. O ganlyniad i'r penderfyniad hwn, roedd angen i ni greu darpariaeth newydd gwerth £1.0 miliwn. Bydd hyn yn talu costau taliadau iawndal a threuliau adleoli sydd i'w talu yn 2019.

Manylir ar fanylion ein symudiadau yn y darpariaethau yn nodyn 19 y cyfrifon.

## Risgiau hylifedd

Gostyngodd balansau ariannol y CDC i £42.3 miliwn (2017: £47.7 miliwn) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balansau yn gylchol a byddant yn cyrraedd uchafbwynt yn Rhagfyr/Ionawr ac yng Ngorffennaf/Awst pan fydd deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn talu eu ffioedd cadw blynyddol priodol. Mae gwariant y CDC wedi'i wasgaru'n gyfartal trwy gydol y flwyddyn ariannol. Yn ystod 2018, fe wnaethom fuddsoddi £15 miliwn o'n balans arian parod sydd ar gael yn unol â'n strategaeth fuddsoddi, a chymeradwywyd hynny gan y Cyngor.

Mae'r CDC yn fodlon nad yw'n wynebu unrhyw risg sylweddol o ran hylifedd. Bydd y balansau hynny nad oes eu hangen am resymau gweithredol byrdymor yn cael eu rhoi am dymor o dri mis fel blaendal marchnad arian sy'n cael ei adolygu a'i adnewyddu ar ddiwedd pob tymor ar hyn o bryd.

## Cronfeydd wrth gefn

Adolygwyd y Polisi Cronfeydd Wrth Gefn gan y Cyngor ym mis Mawrth 2019, pan wnaethant gymeradwyo newid i'n dull o reoli lefel briodol ein Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol. Mae'r newid yn symud i ddull mwy tryloyw a llai camarweiniol o osod ein lefel darged o gronfeydd wrth gefn wrth iddo ystyried elfennau'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol a ymrwymwyd eisoes, er enghraifft, i gyfrif am gostau dibrisiant gwariant cyfalaf blaenorol yn y dyfodol. Rydym bellach yn gosod y lefel briodol o gronfeydd wrth gefn ar gyfer y sefydliad gan gyfeirio at ein lefel o 'gronfeydd wrth gefn rhydd'.

Mae'r Polisi Cronfeydd Wrth Gefn yn ystyried y canlynol:

- amcanion y Cyngor wrth gyflawni ein cyfrifoldebau statudol a rheoleiddio
- ariannu cyfalaf gweithio a rheoli llif arian y Cyngor o ddydd i ddydd, lle mae'r incwm wedi'i ganoli yn uchafbwyntiau'r haf a'r gaeaf
- risgiau i incwm a gwariant y Cyngor
- rhaglenni gwariant cyfalaf sylweddol arfaethedig.

Roedd cyfanswm y cronfeydd wrth gefn ar 31 Rhagfyr 2018 yn £24.7 miliwn (2017: £17.9 miliwn) ac o'u plith, roedd £20.9 miliwn yn gronfeydd wrth gefn cyffredinol (2017: £15.5 miliwn).

| | £ miliwn |
|---|---|
| Cronfa wrth Gefn Gyffredinol ar 31 Rhagfyr 2018 | |
| O'r rhain: | |
| Cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u neilltuo i asedau sefydlog | 11.9 |
| Cyfrifon wrth gefn rhydd | 9.0 |
| Cronfeydd wrth gefn rhydd wedi'u mynegi fel nifer o fisoedd o wariant gweithredu blynyddol | 2.6 mis |

Wrth osod lefel targed, ystyriodd y Cyngor fod cronfeydd wrth gefn rhydd yn cynnwys gwerth tri mis o leiaf o'r gwariant gweithredu yn briodol, â tharged uchelgeisiol i gynyddu hynny i ystod o bedwar i chwe mis o'n gwariant gweithredu blynyddol. Mae'r ystod hwn yn amodol ar ystyriaeth flynyddol gan Bwyllgor Cyllid a Pherfformiad y Cyngor.

Yn deillio o fabwysiadu 'IFRS 15, Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid', mae ailddatganiad agoriadol o £4.6 miliwn wedi'i gymhwyso i falansau cronfeydd wrth gefn. Mae'r addasiad hwn wedi arwain at ein cronfeydd wrth gefn rhydd yn disgyn yn is na'n lefel ofynnol o gronfeydd wrth gefn i werth 2.6 mis o wariant gweithredu blynyddol. Disgwylir i'n cronfeydd wrth gefn rhydd ddychweled i lefel sy'n cyfateb i dri mis o wariant gweithredu blynyddol o leiaf erbyn mis Rhagfyr 2019 .

## Archwilwyr allanol

Mae'r cyfrifon wedi'u harchwilio gan ein harchwilwyr, haysmacintyre o 10 Queen Street Place, Llundain EC4R 1AG ac yn unol â Deddf Deintyddion 1984 gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 157–197 Buckingham Palace Road, Victoria, Llundain SW1W 9SP. Mae adroddiad yr archwilydd annibynnol wedi'i gynnwys ar dudalen 40 yn yr adroddiad hwn, ac mae tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol ar dudalen 42.

## Datgelu gwybodaeth archwilio i'r archwilwyr

Cyn belled ag y gwyddom ni, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymwybodol ohoni. Rydym wedi cymryd pob cam posibl i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno hefyd.

# 10 Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr

Dan Ddeddf Deintyddion 1984 (fel y'i diwygiwyd) mae'n ofynnol i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol baratoi cyfrifon blynyddol ar ffurf a bennir gan y Cyfrin Gyngor. Bydd y cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cyngor yn ogystal â'i incwm a'i wariant, newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Mae'r Cyfrin Gyngor wedi penodi'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd i fod yn Swyddog Cyfrifyddu'r CDC. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol yn bennaf i'r Cyfrin Gyngor a'r Senedd am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid y CDC, am gadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r CDC.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r CDC a'r Swyddog Cyfrifyddu wneud y canlynol:

- cydymffurfio â'r penderfyniad ar gyfrifon a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor, yn cynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a rhoi polisïau cyfrifyddu addas ar waith yn gyson
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol
- datgan a yw safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y nodir yn y penderfyniad ar gyfrifon, wedi'u dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol gwneud hynny.

Mae'r CDC a'r Swyddog Cyfrifyddu wedi ystyried y gofynion uchod ac maent o'r farn, lle bônt yn berthnasol i'r CDC, y cydymffurfiwyd â hwy dan bob amgylchiad perthnasol, ac mae unrhyw faterion arwyddocaol wedi'u nodi yn y Datganiad Llywodraethu sy'n dilyn.

11

# 11 Datganiad llywodraethu

## Cwmpas cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal trefniadau llywodraethu effeithiol ac am sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol ar waith sy'n ategu polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor, ac ar yr un pryd, yn diogelu asedau'r sefydliad, yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt.

Wrth gyflawni fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n ystyried, ond nid wyf yn cael fy rhwymo gan, y canllawiau a ddarperir gan *Rheoli Arian Cyhoeddus*. Wrth wneud fy asesiad, rwyf wedi dibynnu ar adroddiadau a thrafodaethau ag archwilwyr mewnol a gwaith rheolaidd i fonitro ein cofrestrau risg. Cefais sicrwydd hefyd yn ystod y flwyddyn gan gyfarwyddwyr gweithredol y CDC, y gyfres o wybodaeth am berfformiad a rheolaeth ariannol a gynhyrchir gan y sefydliad, a gwaith y Cyngor a'i bwyllgorau. Ni chaiff y CDC ei ystyried yn gorff hyd braich[10], felly nid yw'n ofynnol iddo gydymffurfio â *Llywodraethu corfforaethol mewn adrannau Llywodraeth ganolog: Cod Ymarfer 2011*. Serch hynny, rydym yn ystyried yr egwyddorion ymarfer da sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen wrth ddatblygu ac adrodd ar ein trefniadau llywodraethu.

## Trefniadau llywodraethu

Mae'r CDC yn gorff corfforaethol sydd wedi'i sefydlu o dan Ddeddf Deintyddion 1984 (fel y'i diwygiwyd). Mae gan y Cyngor 12 aelod, sef chwe gweithiwr deintyddol proffesiynol a chwe aelod lleyg, ac mae un ohonynt yn Gadeirydd. Penododd y Cyfrin Gyngor aelod cofrestredig newydd o'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2018, yn dilyn proses benodi cystadleuaeth agored a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol. Cafodd yr aelod, sydd wedi'i leoli yn yr Alban, ei benodi ar 1 Hydref am gyfnod o bedair blynedd. Mae rhagor o wybodaeth am aelodau'r Cyngor ar gael yn adran 6 yr adroddiad hwn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu cyfeiriad y CDC yn unol â'i genhadaeth a'i bwrpas statudol; sicrhau bod systemau ar waith i'w alluogi i fonitro perfformiad a sicrhau bod y tîm gweithredol yn atebol; a sicrhau cywirdeb. Mae'r Cyngor wedi penderfynu mai'r ffordd

[10]Mae corff hyd braich yn sefydliad sy'n cyflenwi gwasanaeth cyhoeddus, ond nid yw'n un o adrannau'r Llywodraeth sy'n cael eu harwain gan weinidogion, ac mae'n gweithredu (i raddau mwy neu lai) gan gynnal pellter rhyngddo a Gweinidogion.

fwyaf effeithiol o gyflawni ei swyddogaethau yw drwy ddirprwyo materion penodol i is-gyrff neu'r Tîm Gweithredol. Ni fydd y Cyngor yn dirprwyo'r canlynol:

- cymeradwyo strategaeth
- llunio rheolau statudol
- cymeradwyo'r cynllun busnes blynyddol a'r gyllideb
- cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ac unrhyw adroddiad sy'n rhaid ei gyflwyno gerbron y seneddau
- sicrhau bod y Tîm Rheoli Gweithredol yn atebol am ei ddull o reoli'r sefydliad.

Mae'r Cyngor a'i Bwyllgorau yn gweithredu'n unol â'r Rheolau Sefydlog perthnasol, sy'n cynnwys y cylch gorchwyl ar gyfer y pwyllgorau a threfniadau clir ar gyfer rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau. Mae datganiadau o fuddiannau aelodau'r Cyngor ar gael yn gyhoeddus.

## Pwyllgorau anstatudol

Mae'r Cyngor wedi sefydlu'r pedwar pwyllgor anstatudol dilynol:

- Pwyllgor Archwilio a Risg
- Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad
- Pwyllgor Tâl
- Bwrdd Polisi ac Ymchwil

Mae aelodaeth pob un o'r pwyllgorau'n cynnwys aelodau o'r Cyngor sy'n weithwyr deintyddol cofrestredig ac aelodau heb eu cofrestru.
Mae dau bwyllgor (Archwilio a Risg a Thâl) wedi penodi aelod allanol. Mae manylion aelodaeth y pwyllgorau ar gael yn adran 6 yr adroddiad hwn.

Bydd y pwyllgorau'n adrodd i'r Cyngor ar eu gwaith ar ôl pob cyfarfod a bydd pob pwyllgor yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor ar ddiwedd pob blwyddyn yn crynhoi ei berfformiad yn erbyn ei raglen waith.

### Pwyllgor Archwilio a Risg

Prif bwrpas y Pwyllgor Archwilio a Risg yw mynd ati ar ran y CDC i fonitro cywirdeb datganiadau ariannol, adolygu systemau llywodraethu, rheolaeth fewnol a rheoli risg y CDC, ac adolygu'r gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol. Mae hyn yn cynnwys monitro a gyflawnir y camau gweithredu sydd wedi'u nodi mewn adroddiadau archwilio. Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol cyn eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo.

Mae'r Pwyllgor yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau rheoli risg. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r Gofrestr Risgiau Strategol, cael sicrwydd ar drefniadau rheoli risg gan archwilwyr mewnol ac adolygu statws a thueddiadau'r holl risgiau yn y gofrestr risgiau strategol. Yn 2018, cafodd y Pwyllgor sesiynau briffio ar y goblygiadau a'r risgiau sy'n deillio o ymadawiad y DU o'r UE a bydd yn parhau i gael diweddariadau yn ystod 2019.

Ym mis Ebrill 2018, newidiwyd aelod allanol y pwyllgor. Mae'r aelod newydd wedi dilyn proses sefydlu.

### Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad

Rôl y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yw herio a monitro'r Tîm Rheoli Gweithredol ar berfformiad ariannol a pherfformiad arall; gweithio gyda'r Tîm Rheoli Gweithredol i ddatblygu set ddata briodol a chymesur i alluogi'r Cyngor i gyflawni ei swyddogaethau. Mae hefyd yn darparu canllawiau i'r Tîm Rheoli Gweithredol ar faterion gweithredol pwysig megis strategaeth eiddo, buddsoddi a datblygu technoleg. Mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad hefyd yn cydweithio â'r Tîm Rheoli Gweithredol i ddatblygu strategaeth ariannol a chynllun busnes y Cyngor.

Yn ystod 2018, mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad wedi gwella ei effeithlonrwydd trwy ddisodli adroddiadau gweithgarwch ariannol o holl feysydd y busnes ag un papur cynhwysfawr, y papur pontio adnoddau. Fe wnaeth hyn gynnig trosolwg cyflawn o berfformiad pob maes cyllideb, gan gynnwys perfformiad risg, ariannol a dangosyddion perfformiad allweddol.

Mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad wedi parhau i oruchwylio strategaeth Ystadau'r Cyngor, ac yn benodol, datblygu canolbwynt gweithredol yn Birmingham, gan gynnwys dewis adeiladau, seilwaith TG, cyfleusterau a pharhad gweithredol. Mae adleoli staff wedi digwydd mewn dau gam a bydd y pwyllgor yn parhau i gael diweddariadau ac yn sicrhau y bydd gwersi a ddysgwyd yn y cam cyntaf yn cael eu

cymhwyso i'r ail gam wrth i'r gwaith barhau yn ystod 2019.

### Pwyllgor Tâl

Diben allweddol y Pwyllgor Tâl yw sefydlu gweithdrefn dryloyw ar gyfer talu'r Prif Weithredwr, y Tîm Rheoli Gweithredol, Aelodau'r Cygnor (yn cynnwys y Cadeirydd) a deiliaid swyddi cymdeithion eraill. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol hefyd am sicrhau bod cymhellion priodol ar gael i annog gwell perfformiad a bod unigolion yn cael eu gwobrwyo mewn modd teg a chyfrifol, yn gysylltiedig â'u cyfraniadau at lwyddiant y CDC.

Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r broses o wneud argymhellion i benodi ac ailbenodi aelodau'r Cyngor ac yn cytuno ar drefniadau i adolygu perfformiad ac effeithiolrwydd y Cyngor bob blwyddyn, ar y cyd â'r Cadeirydd. Bydd hefyd yn adolygu cynlluniau pensiwn y CDC yn flynyddol ac yn rhoi adroddiadau a/neu'n cynnig argymhellion fel sy'n briodol i'r Cyngor, yn seiliedig ar ddata a chyngor actiwaraidd.

Yn ystod 2018, mae'r Pwyllgor wedi derbyn cynigion ar gyfer Strategaeth a chynllun gwaith ehangach i Ddatblygu Pobl a'r Sefydliad ac wedi cynghori ynghylch hynny, sy'n darparu strwythur ar gyfer gwaith ynghylch gwobrwyo a datblygu hyd at 2019. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cynorthwyo i ddatblygu strategaeth pensiwn y CDC, a chaiff y newidiadau eu gweithredu yn 2019.

### Bwrdd Polisi ac Ymchwil

Mae'r Bwrdd Polisi ac Ymchwil yn goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaeth, polisi a mentrau ymchwil, a bydd yn adrodd arnynt i'r Cyngor. Yn ystod 2018, mae'r Bwrdd wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol trwy fynychu gweithdai i drafod datblygu polisi a chyfleoedd i gydweithredu. Yn ychwanegol, dilynodd y Tîm Rheoli Gweithredol uchelgais i ymgysylltu â myfyrwyr yn gynnar iawn yn ystod eu hyfforddiant, ac yn dilyn adborth rhagorol o'r digwyddiadau cychwynnol, bydd hyn yn parhau yn ystod 2019.

Fe wnaeth y Bwrdd barhau i wneud cyfraniad pwysig at brosiectau Shifting the Balance a Moving Upstream. Fe wnaeth ystyried drafftiau cynnar o ddogfen Moving Upstream a'r strategaeth gorfforaethol sy'n cael ei datblygu ar gyfer 2020–2022 (yr ymgynghorwyd yn ei chylch yn 2019) a rhoddodd her adeiladol i'r Tîm Rheoli Gweithredol.

### Pwyllgor Sicrhau Panelwyr Statudol

Yn ogystal â'r pwyllgorau anstatudol uchod, mae'r Cyngor wedi arfer y pŵer i sefydlu pwyllgor penodiadau, y Pwyllgor Sicrhau Panelwyr Statudol. Sefydlwyd y pwyllgor o dan Orchymyn Rheolau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (Ymgynghori â Phwyllgorau) 2009, a bydd yn cynorthwyo'r Cyngor mewn cysylltiad ag arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â phenodi aelodau o bwyllgorau statudol y Cyngor. Ym mis Rhagfyr 2018, fe wnaeth y Pwyllgor Sicrhau Panelwyr Statudol hysbysu'r Cyngor ei fod wedi cadarnhau 66 o benodiadau i'r pwyllgorau a'r paneli statudol yn ystod y flwyddyn, ac wedi parhau i fonitro themâu sy'n deillio o addasrwydd i ymarfer a'r fframwaith sicrhau ansawdd i lywio apwyntio a hyfforddi panelwyr yn well.

## Effeithiolrwydd y Cyngor

Mae'r gwaith a nodwyd fel rhan o Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd yn 2017 wedi parhau yn ystod 2018. Roedd yr adolygiad yn ymdrin â phynciau megis cyfansoddiad, dewis, cymorth, effeithiolrwydd a datblygiad.

Mae'r fethodoleg proffilio tîm a sefydlwyd gyda'r Cyngor yn ystod 2017 wedi'i gweithredu ledled isadeiledd y Pwyllgorau (sy'n cynnwys Aelodau'r Cyngor) i sicrhau synergeddau rhwng y Cyngor, y Pwyllgorau, y Tîm Rheoli Gweithredol a'r uwch reolwyr hynny sy'n rhyngweithio'n aml â'r strwythur llywodraethu.

Mae gwaith wedi'i wneud ynghylch cynllunio olyniaeth (o safbwynt y Cyngor a'r Tîm Rheoli Gweithredol) i nodi a dechrau lliniaru risgiau ac i gynllunio at y dyfodol. Mae'r gwaith hwn wedi ystyried y recriwtio a ddigwyddodd yn 2017 (chwe aelod) a 2018 (un aelod).

Mae'r Cyngor yn parhau i ddefnyddio cyfuniad o "weithdai" anffurfiol a chyfarfodydd ffurfiol i sicrhau bod busnes yn cael ei reoli'n briodol. Mae'r gweithdai'n caniatáu i'r Cyngor drafod syniadau a mentrau newydd ar ffurf cysyniadau, cael sgwrs wyneb yn wyneb ag amrywiaeth o staff mewn amgylchedd mwy anffurfiol a dod yn gyfarwydd â'r cyd-destun ehangach cyn i'r mentrau gael eu nodi mewn papur ffurfiol gan y Cyngor i'w cymeradwyo.

Mae'r Cadeirydd yn dal i adolygu pob cyfarfod ar ei ddiwedd ar y cyd â'r Aelodau a'r Tîm Rheoli Gweithredol a bydd hefyd yn cynnal cyfarfodydd gwerthuso blynyddol ar y cyd â'r Aelodau.

Cofnodir presenoldeb Aelodau'r Cyngor yng nghyfarfodydd y Cyngor yn y cofnodion, sydd ar gael ar ein gwefan. Mae tabl yn cynnwys manylion presenoldeb Aelodau ar gael yn adran 6 yr adroddiad hwn.

## Arolygiaeth y cyngor o risgiau strategol

Bydd y Cyngor yn monitro risgiau strategol allweddol, a chyflwynir diweddariad ar y Gofrestr Risgiau Strategol yn rheolaidd iddo. Bydd y Gofrestr Risgiau Strategol yn cael ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Tîm Rheoli Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg cyn ei chyfeirio at y Cyngor.

Anfonnir y Gofrestr Risgiau Strategol at y Cyngor yn syth ar ôl cael cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, sy'n caniatáu i'r Cyngor weld y gofrestr cyn gynted ag y bo modd. Yn y cyfarfod dilynol o'r Cyngor, darperir diweddariad ychwanegol ynghylch risgiau strategol yn disgrifio unrhyw ddatblygiadau rhwng y fersiwn o'r Gofrestr Risgiau Strategol sydd wedi'i chylchredeg a dyddiad y cyfarfod.

Ymhlith pethau eraill, mae'r Gofrestr Risgiau Strategol yn caniatáu i'r Cyngor asesu i ba raddau mae risgiau strategol yn cael eu lliniaru drwy reolaethau effeithiol; nodi'r rhai sydd oddi allan i lefelau archwaeth y sefydliad; a phennu sut mae'r sefydliad yn perfformio yn erbyn targedau blynyddol realistig a chymeradwy ynghylch amlygiad i risg. Pan gaiff ei chyflwyno mewn unrhyw fforwm, caiff y Gofrestr Risgiau Strategol ei hategu gan bapur rheoli risg sy'n tynnu sylw at feysydd allweddol o bryder, tangyflawni, materion sy'n dod i'r fei neu faterion sy'n anweithredol ar y pryd. Mae'r papur yn gosod y Gofrestr Risgiau Strategol yn ei chyd-destun ac yn egluro beth yw ei goblygiadau i'r CDC.

Mae'r dogfennau risg hyn sy'n cael eu cyflwyno i'r Cyngor i graffu arnynt yn darparu gwybodaeth i ategu a llywio penderfyniadau a galluogi monitro cynnydd yn erbyn y strategaeth gorfforaethol, a sicrhau bod y Tîm Rheoli Gweithredol yn atebol am berfformiad y strategaeth honno.

I ategu'r Gofrestr Risgiau Strategol, a sicrhau bod yr holl risgiau sydd wedi'u cynnwys ynddi o natur strategol yng ngwir ystyr y gair, mae gan bob Cyfarwyddiaeth gofrestr risgiau gweithredol. Caiff pob cofrestr risgiau gweithredol ei rhannu'r is-gategorïau yn ôl timau. Cyflwynir pob cofrestr risgiau gweithredol i'r Tîm Rheoli Gweithredol o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae pob risg, boed yn strategol neu'n weithredol, yn cael eu cysoni ag amcanion corfforaethol a blaenoriaethau'r Cynllun Busnes.

### Datgelu'r prif risgiau ac ansicrwydd

Mae fframwaith Rheoli Risg y CDC yn caniatáu ystyried risgiau strategol a gweithredol, gan gwmpasu pob maes sy'n destun pryder posibl. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y Gofrestr Risgiau Strategol yn cynnwys 10 risg strategol. Roeddent yn cynnwys:

- risgiau a nodwyd yn dilyn yr adleoli sy'n rhan o'r Strategaeth Ystadau, mewn perthynas â pharhad busnes a chadw at ragamcanion ariannol
- ymrwymiadau sefydliadol strategol, megis Shifting the Balance
- risgiau mewn perthynas â chynnal safonau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol
- ansicrwydd ynghylch newidiadau cyfansoddiadol yn dilyn penderfyniad y DU i adael yr UE, yn cynnwys y posibilrwydd o golli Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol Cilyddol
- dilyniant cadarn ac amserol achosion trwy brosesau addasrwydd i ymarfer
- risgiau corfforaethol mewn perthynas â meysydd megis diogelu data a diogelwch; a rheoli contractau.

# Gwasanaethau Archwilio Mewnol

Fe wnaeth Mazars LLP ddarparu gwasanaeth archwilio mewnol y CDC yn ystod 2018. Cymeradwywyd cynllun archwilio mewnol ar gyfer y cyfnod o 1 Ionawr i 31 Rhagfyr 2018, a ddatblygwyd ar y cyd â Mazars, gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, yn ei gyfarfod ar 1 Tachwedd 2017. Cynhaliwyd naw archwiliad mewnol yn 2018.

Yn dilyn pob aseiniad archwilio mewnol, gwnaed argymhellion i wella naill ai gynllun y fframwaith rheoli neu'r dull o gymhwyso'r fframwaith rheoli. Yn dilyn cymeradwyo'r argymhellion hyn, pennwyd swyddog i fod yn gyfrifol am weithredu pob argymhelliad, a chytunwyd ar ddyddiad gweithredu. Roedd canfyddiadau sicrwydd archwilio yn amrywio rhwng tair lefel bosibl o sicrwydd: sicrwydd sylweddol, sicrwydd digonol a sicrwydd cyfyngedig.

Yn ôl barn archwilio fewnol gyffredinol Mazars, ar sail y gwaith archwilio a wnaed yn 2018, roedd trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y CDC yn ddigonol ac yn effeithiol ar y cyfan i'w alluogi i reoli'r gwaith o gyflawni ei amcanion. Amlygwyd rhai gwendidau ac eithriadau gan y gwaith archwilio; fodd bynnag, nid oedd unrhyw un ohonynt yn cael ei ystyried yn rhai hanfodol.

Roedd sgôr sicrwydd cyffredinol Mazars yn adlewyrchu targedu'r cynllun archwilio at feysydd oedd yn wendidau hysbys a meysydd arwyddocaol lle nad oedd rheolwyr yn gallu rhoi sicrwydd o berfformiad.

Mae gan y CDC swyddogaeth ganolog i olrhain y gwaith o weithredu argymhellion mewnol. Cynhelir adnodd olrhain argymhellion, a gofynnir am gadarnhad gan berchnogion argymhellion ynghylch statws argymhellion pan gyrhaeddir eu dyddiad gweithredu. Mae'r Tîm Rheoli Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi cael eu hysbysu trwy gydol y flwyddyn am berfformiad o ran gweithredu argymhellion.

# Tîm Rheoli Gweithredol

Mae'r Cyngor yn cael ei gynorthwyo gan staff, o dan arweiniad y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd, Ian Brack, sy'n Swyddog Cyfrifyddu hefyd, ac aelodau eraill o'r Tîm Rheoli Gweithredol.

Y Cyngor sy'n pennu strategaethau a pholisïau, ac yn pennu canlyniadau ac allbynnau'r CDC i'w gynorthwyo i gyflawni ei ddiben a'i werthoedd. Mater i'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli Gweithredol yw sut bydd y canlyniadau a'r allbynnau hynny yn cael eu cyflawni. Mae'r Prif Weithredwr yn atebol i'r Cyngor am berfformiad y Tîm Rheoli Gweithredol. Mae'r Tîm Rheoli Gweithredol yn gyfrifol am:

- weithredu'r strategaeth a gymeradwywyd gan y Cyngor
- paratoi cynlluniau busnes a chyllidebu
- darparu adroddiadau rheoli rheolaidd i'r Cyngor, a sicrhau bod adroddiadau priodol yn cael eu darparu i bwyllgorau'r Cyngor ar faterion sy'n rhan o'u cylch gorchwyl
- nodi ac adrodd ar risgiau i strategaeth y Cyngor a sicrhau bod perchnogaeth ar gyfer risg yn cael ei phennu ar y lefel briodol ag atebolrwydd clir.

Yn ystod 2018, mae'r Tîm Rheoli Gweithredol wedi cynnal cyfarfodydd ffurfiol o leiaf unwaith y mis, gyda sesiynau "gweithdai" yn cael eu cynnal yn aml, i ganiatáu i'r Tîm Rheoli Gweithredol gynnig mewnbwn cynnar ynghylch cynigion, a chyn eu cyflwyno mewn cyfarfodydd ffurfiol i gael penderfyniad.

Rhwng mis Ionawr a mis Medi, roedd y Tîm Rheoli Gweithredol yn cynnwys y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd, y Cyfarwyddwyr Gweithredol, a'r Prif Gynghorydd Cyfreithiol. O fis Medi, cafodd swydd y Prif Gynghorydd Cyfreithiol ei dileu o'r Tîm Rheoli Gweithredol.

Penderfynwyd hefyd yn ystod 2018 i greu Uwch Dîm Arwain, yn unol â bwriad yr uwch benaethiaid gweithredol a strategol o gynorthwyo â gwaith gwneud penderfyniadau'r sefydliad. Mae'r Uwch Dîm Arwain yn cynnwys y Prif Gynghorydd Cyfreithiol, Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Pennaeth Polisi ac

Ymchwil a Phenaethiaid AD, TG, Cyllid, Cofrestru ac Addasrwydd i Ymarfer.

Dyma oedd cylchoedd gorchwyl y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn ystod 2018:

**Cyfarwyddwr Gweithredol, Trawsnewid Addasrwydd i Ymarfer: Tom Scott** (o 15 Ionawr 2018 2018) Gweithredu canfyddiadau'r adolygiad hollgynhwysfawr o Addasrwydd i Ymarfer, gwaith achosion, dyfarniadau, addasrwydd i ymarfer, y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol.

**Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol: Bobby Davis**
Gwasanaethau cyfreithiol, llywodraethu gwybodaeth, adnoddau dynol, llywodraethu, cydraddoldeb ac amrywiaeth, cydymffurfiaeth a chyfleusterau.

**Cyfarwyddwr Gweithredol, Cofrestru ac Adnoddau Corfforaethol: Gurvinder Soomal**
Cofrestru, gwasanaethau i gwsmeriaid, cyllid, caffael, cynllunio busnes a rheoli prosiectau, TG, archwilio a risg.

**Cyfarwyddwr Corfforaethol, Strategaeth: Matthew Hill**
Datblygu strategaeth a pholisi, cyfathrebu ac ymgysylltu, ymchwil ac addysg, sicrhau ansawdd

# Gwybodaeth Reoli ac Adrodd am Berfformiad

Nododd Cynllun Busnes 2018, ar y cyd â'r Cynllun Gweithredol, y blaenoriaethau i'r CDC allu cyflawni ei amcanion strategol a rheoliadol yn llwyddiannus a nododd yr adnoddau gofynnol, y canlyniadau a'r allbynnau a ragwelid ac unrhyw ffactorau cyfrannol eraill. Trwy gydol y flwyddyn fe wnaeth y Tîm Rheoli Gweithredol/Uwch Dîm Arweinyddiaeth fonitro gweithgarwch yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol gan ddefnyddio cerdyn sgorio cytbwys wedi'i gysylltu â datblygu warws data. Hysbyswyd y Cyngor a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad am gynnydd yn chwarterol. Cafodd statws prosiectau ei adolygu hefyd. Ynghyd â'r adroddiadau rheoli risg, fe wnaeth yr adroddiadau hyn lywio'r broses cynllunio busnes wrth asesu blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sy'n dod a ble i ddyrannu adnoddau.

Yn 2018, dechreuodd y CDC ddatblygu ei strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2020–2022, wedi'i llywio gan gynllun corfforaethol tair blynedd wedi'i gostio. Bydd gwaith i ddatblygu'r cynlluniau hyn yn para yn ystod 2019, yn cynnwys ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol, cleifion a gweithwyr proffesiynol.

# Mynediad diawdurdod at ddata a diogelwch gwybodaeth

## Llywodraethu gwybodaeth

Yn ystod 2018, parhaodd y CDC i ddatblygu a gwella ei fframwaith llywodraethu gwybodaeth, ei ddull o reoli a gwaredu gwybodaeth, nodi ac ymateb i ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch data, a sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r holl staff newydd wedi cael hyfforddiant ynghylch y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, y Ddeddf Diogelu Data, a diogelwch data fel rhan o'r rhaglen sefydlu gorfforaethol a chwblhaodd holl staff y CDC hyfforddiant gloywi blynyddol ynghylch diogelu data.

Roedd gwaith arwyddocaol arall a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys cyflawni rhaglen waith i weithredu gofynion y GDPR. Fe wnaeth Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth y CDC, sy'n darparu cymorth a sicrwydd i'r Tîm Rheoli Gweithredol/Uwch Dîm Arweinyddiaeth, gyfraniad pwysig at helpu i sicrhau fod y busnes yn ymateb i ofynion y GDPR a gwaith gweithredu cysylltiedig. Mae sesiynau gweithdai gyda'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth wedi helpu i lunio'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno Polisi Dileu E-byst y CDC a datblygu'r fframwaith adrodd ynghylch digwyddiadau diogelwch data a'r polisi a'r fframwaith cynorthwyo mewn perthynas â hynny.

## Ceisiadau am wybodaeth

Yn ystod 2018, derbyniodd y CDC gyfanswm o 305 o geisiadau (341 yn 2017) am wybodaeth gorfforaethol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a gwybodaeth bersonol o dan y Ddeddf Diogelu Data (ceisiadau am fynediad gan wrthrychau data).

Roedd llawer o'r ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd gan y CDC am wybodaeth ystadegol yn ymwneud â gwaith y CDC. Roedd cyfran fawr o'r ceisiadau am fynediad gan wrthrychau data a dderbyniodd y CDC gan bobl oedd yn ymwneud â chwyn ynghylch addasrwydd i ymarfer oedd yn ceisio gwybodaeth ynghylch achosion at ddibenion apêl neu hawliad preifat.

Fe wnaeth y CDC ymateb i 312 o geisiadau am wybodaeth – 207 o geisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2017: 227) a 94 o geisiadau am fynediad gan wrthrychau ddata (2017: 113). Ymatebwyd i 99% o'r ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (215) o fewn yr amserlenni statudol (20 diwrnod gwaith) neu aethpwyd ati'n briodol i hawlio estyniad i gynnal prawf budd y cyhoedd. Ymatebwyd i 97% (91) o geisiadau am wybodaeth gan wrthrychau data o fewn yr amserlen statudol (40 diwrnod calendr) neu hawliwyd estyniad yn y ffordd briodol.

O blith y 312 o geisiadau am wybodaeth y gwnaeth y CDC ymateb iddynt yn 2018, ni anfonwyd unrhyw apeliadau at y Comisiynydd Gwybodaeth yn eu cylch (cafwyd dwy apêl yn 2017). Cafwyd un apêl ynghylch cais am fynediad gan wrthrych data a datgelwyd rhagor o wybodaeth.

## Digwyddiadau diogelwch data

Yn ystod 2017, parhaodd y CDC i gofnodi, rheoli ac adrodd ar Ddigwyddiadau Diogelwch Data. Rydym wedi adrodd ar a chofnodi pryderon ynghylch defnyddio, cyrchu a dinistrio data personol gan y CDC, a gan drydydd partïon, lle mae gwybodaeth y CDC wedi'i heffeithio. Yn ogystal â chofnodi digwyddiadau pan ddigwyddodd rhywbeth, rydym ni hefyd wedi cofnodi digwyddiadau 'trwch blewyn', sef digwyddiadau y bu bron iddynt ddigwydd, fel y gellir cofnodi gwersi i'w dysgu. Nid yw'r holl ddigwyddiadau diogelwch data a gofnodir yn ymwneud â mynediad diawdurdod at ddata personol.

Fe wnaeth y CDC gofnodi 142 digwyddiad diogelwch data yn 2018. Mae hyn yn gynnydd o'i gymharu â 2017 (94) oherwydd gwell ymwybyddiaeth ymhlith staff o lywodraethu gwybodaeth a gwell dealltwriaeth o werth rhoi gwybod am ystod ehangach o ddigwyddiadau.

Ble mae mynediad diawdurdod at ddata personol wedi'i nodi, rydym wedi sicrhau bod gwybodaeth a gollwyd neu a ddatgelwyd yn amhriodol trwy ddamwain neu wall yn cael ei hadfer, bod risgiau'n cael eu hasesu ac yr ymatebir iddynt, a bod gwersi'n cael eu dysgu yn sgil digwyddiadau i'w hatal rhag digwydd eto a gwella ein gwasanaeth.

Roedd pum digwyddiad yn cael eu hystyried yn ddigon difrifol i gael eu hysbysu i'r Comisiynydd Gwybodaeth gan wrthrychau'r data oedd dan sylw. Roedd dau o'r rhain yn ymwneud â gweithredoedd trydydd partïon oedd tu hwnt i reolaeth y CDC. Er bod nifer y digwyddiadau difrifol a gyfeiriwyd at y Comisiynydd Gwybodaeth wedi cynyddu yn 2018, dylid gosod hyn yng nghyd-destun y trothwy is ar gyfer hysbysu am ddigwyddiadau a gyflwynwyd gan y GDPR.

Ystyriodd y Comisiynydd Gwybodaeth ymateb y Cyngor i'r digwyddiadau hyn gan ddod i'r casgliad nad oedd angen iddi hi gymryd unrhyw gamau gorfodi.

## Casgliad

Fel Swyddog Cyfrifyddu, ar ôl ystyried yr holl adroddiadau sydd ar gael i mi, gan gynnwys cyngor allanol, rwy'n parhau i fod yn hyderus bod systemau rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor yn ddigon effeithiol i alluogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol, ac i barhau i gefnogi polisïau, nodau ac amcanion y CDC.

**Ian Brack**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

15 Hydref 2019

12

# Cyfrifon 2018

## Adroddiad yr archwilydd annibynnol

### Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ("y Cyngor") am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2018 sy'n cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r cyfrifon yw'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr ariannol y Cyngor fel ag yr oedd ar 31 Rhagfyr 2018 ac o'i warged ar ddiwedd y flwyddyn honno
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion Deddf Deintyddion 1984 a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf gan y Cyfrin Gyngor.

### Sail ein barn

Fe wnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISA (DU)) a chyfraith berthnasol. Mae ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi'u disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y Cyngor yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, yn cynnwys Safon Foesegol yr FRC, ac rydym wedi cyflawni'n cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gasglwyd gennym yn ddigonol ac yn briodol i fod yn sail i'n barn.

### Casgliadau ynghylch busnes gweithredol

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd ar y materion canlynol y mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn gofyn i ni adrodd i chi amdanynt:

- ble nad yw defnydd Aelodau'r Cyngor o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu

- ble nad yw Aelodau'r Cyngor wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol penodol a allai fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyngor i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o ddyddiad awdurdodi cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

## Gwybodaeth arall

Mae Aelodau'r Cyngor yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd yn yr adroddiad blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad archwilydd yn eu cylch. Nid yw'n barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall, a heblaw i'r graddau y datganwyd fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd am hynny.

O ran ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall, ac wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson â'r datganiadau ariannol yn sylweddol neu a yw'r wybodaeth sydd gennym a gafwyd yn yr archwiliad neu trwy ddulliau eraill yn ymddangos fel pe bai wedi'i cham-ddatgan yn sylweddol. Os ydym yn nodi anghysonderau sylweddol neu gamddatganiadau sylweddol ymddangosol o'r fath, mae gofyn i ni benderfynu a oes camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall. Os byddwn, ar sail y gwaith rydym wedi'i gyflawni, yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn sylweddol, bydd gofyn i ni adrodd am y ffaith honno. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn yr achos hwn.

## Materion y mae'n rhaid i ni adrodd yn eu cylch trwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Cyngor a'i amgylchedd a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, nid ydym wedi nodi unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn yr adroddiad blynyddol.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd am y materion canlynol yr adroddwn i chi amdanynt os, yn ein barn ni:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw gan y Cyngor, na mantolenni digonol i gynnal ein harchwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau na wnaethom ymweld â hwy; neu
- os nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r adroddiadau cyfrifyddu; neu
- os nad oes rhai datgeliadau neu daliadau a bennwyd gan y gyfraith wedi'u gwneud; neu
- os nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

## Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr, mae'r Cyngor a'r Prif Weithredwr yn rhinwedd ei swydd Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am sicrhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae aelodau'r Cyngor yn penderfynu sy'n angenrheidiol i allu paratoi'r datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys unrhyw gamddatganiad sylweddol, boed drwy dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae aelodau'r Cyngor yn gyfrifol am asesu gallu'r Cyngor i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, materion sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol a defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu oni bai bod aelodau'r Cyngor naill ai'n bwriadu diddymu'r Cyngor neu ddod â'i weithrediadau i ben, neu nad oes ganddynt ddewis realistig arall heblaw gwneud hynny.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gam-ddatgan sylweddol yn gyffredinol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) bob amser yn dangos camddatganiad sylweddol os bydd hynny'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac maent yn cael eu hystyried yn sylweddol, os gellid disgwyl iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad ychwanegol o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilydd.

## Defnydd o'n hadroddiad

Adroddiad i Aelodau'r Cyngor, fel corff, yn unig yw hwn, yn unol â Deddf Deintyddion 1984 a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd yn unol â hynny gan y Cyfrin Gyngor. Mae ein gwaith archwilio wedi cael ei wneud fel y gallwn hysbysu Aelodau'r Cyngor am y materion hynny sy'n ofynnol i ni hysbysu amdanynt mewn adroddiad archwilio ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r Cyngor ac Aelodau'r Cyngor fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, neu am y farn yr ydym wedi'i ffurfio.

**haysmacintyre LLP**
Archwilwyr Statudol
10 Queen Street Place
Llundain
EC4R 1AG

16 Hydref 2019

# Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd

**TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL I'R SENEDD**

## Barn am y datganiadau ariannol

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2018 o dan Ddeddf Deintyddion 1984. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad o'r Llif Arian, Datganiad o Newidiadau i'r Cronfeydd Wrth Gefn a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Dâl a gafodd ei disgrifio yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth a archwiliwyd.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr ariannol y Cyngor fel ag yr oedd ar 31 Rhagfyr 2018 ac o'i warged ar ddiwedd y flwyddyn honno; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion Deddf Deintyddion 1984 a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf gan y Cyfrin Gyngor.

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi'u disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol yn fy nhystysgrif. Mae'r safonau hynny'n gofyn i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol, 2016. Rwy'n annibynnol ar y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad a'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gesglais yn ddigonol a phriodol i ffurfio sail i'm barn.

## Casgliadau ynghylch busnes gweithredol

Mae'n ofynnol i ni ddod i'r casgliad ar briodoldeb defnydd rheolwyr o sail cyfrifyddu busnes gweithredol, ac yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd, ynghylch a oes ansicrwydd perthnasol yn gysylltiedig â digwyddiadau neu amgylchiadau a allai fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Os deuaf i'r casgliad bod ansicrwydd perthnasol yn bodoli, mae'n ofynnol i mi dynnu sylw yn fy adroddiad archwilydd at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol, neu os yw datgeliadau o'r fath yn annigonol, addasu fy marn. Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd hyd at ddyddiad fy adroddiad archwilydd. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amgylchiadau yn y dyfodol beri i'r endid beidio â pharhau i fod yn fusnes gweithredol. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn yr achos hwn.

## Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fwy trylwyr yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr, y Cyngor a'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Deintyddion 1984.

Mae archwiliad yn golygu cael gafael ar dystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys datganiadau sy'n sylweddol anghywir, boed hynny trwy dwyll neu gamgymeriad. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio bob amser yn dangos camddatganiad sylweddol os bydd hynny'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac maent yn cael eu hystyried yn sylweddol, os gellid disgwyl iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Asesu rwy'n defnyddio barn broffesiynol ac yn cynnal amheuaeth broffesiynol trwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd yn:

- nodi ac yn asesu risgiau camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol, boed drwy dwyll neu gamgymeriad, yn cynllunio a chyflawni gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, a chael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol a phriodol i fod yn sail i fy marn. Mae'r risg o beidio canfod camddatganiad sylweddol yn deillio o dwyll yn uwch na'r un yn deillio o gamgymeriad, oherwydd gallai twyll gynnwys cydgynllwyn, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camliwio, neu anwybyddu rheolaeth fewnol.
- sicrhau dealltwriaeth o reolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn cynllunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol yn yr amgylchiadau, ond nid at ddiben mynegi barn ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.
- gwerthuso priodolrwydd polisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd a rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau cysylltiedig a wnaed gan reolwyr.
- gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys cyffredinol y datganiadau ariannol, yn cynnwys y datgeliadau, a pha un ai a yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynrychioli'r trafodion a'r digwyddiadau sylfaenol mewn modd sy'n sicrhau cyflwyniad teg.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, yn cynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol rwy'n eu nodi yn ystod fy archwiliad.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant a adroddir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd yn yr Adroddiad Blynyddol, ac eithrio'r rhannau o'r Adroddiad Tâl a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad hwnnw fel rhai a archwiliwyd, y datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilydd yn eu cylch. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd am hynny. O ran fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall, ac wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson â'r datganiadau ariannol yn sylweddol neu a yw'r wybodaeth sydd gennyf a gafwyd yn yr archwiliad neu trwy ddulliau eraill ymddangos fel pe bai wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf, ar sail y gwaith rwyf i wedi'i gyflawni, yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn sylweddol, bydd gofyn i mi adrodd am y ffaith honno. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn yr achos hwn.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae’r rhannau o’r Adroddiad Tâl i’w harchwilio wedi’u paratoi’n briodol yn unol â chyfarwyddiadau’r Cyfrin Gyngor a wnaed o dan Ddeddf Deintyddion 1984;
- yng ngoleuni’r wybodaeth a’r ddealltwriaeth o’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a’i amgylchedd a gefais yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad Blynyddol; ac
- mae’r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol yn ei chylch yn gyson â’r datganiadau ariannol.

## Materion yr wyf yn adrodd yn eu cylch trwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i’w adrodd ar y materion canlynol yr adroddaf i chi amdanynt, os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw, na mantolenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi’u derbyn o ganghennau na wnaeth fy staff ymweld â hwy; neu
- os nad yw’r datganiadau ariannol a’r rhannau o’r Adroddiad Tâl i’w harchwilio yn cyfateb i’r cofnodion cyfrifyddu a’r mantolenni; neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a’r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- os nad yw’r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i’w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Y Swyddfa Archwilio Gyffredinol
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

17 Hydref 2019

# Cyfrif incwm a gwariant

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2018

| | | 2018 £'000 | Ailddatganwyd 2017 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | **Nodyn** | | |
| Ffioedd | 2 | 45,416 | 44,877 |
| Arholiad Cofrestru Tramor | 3 | 1,588 | 1,389 |
| Amrywiol | 3 | 14 | 3 |
| **Cyfanswm Incwm Gweithredu** | | **47,018** | **46,269** |
| **Gwariant** | | | |
| Costau staff | 5 | 22,534 | 19,398 |
| Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | 6 | 6,798 | 8,008 |
| Cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau | 7 | 5,673 | 7,168 |
| Gweinyddu | 8 | 3,727 | 3,384 |
| Adeiladau | 9 | 906 | 817 |
| Cyfathrebu a Chyhoeddiadau | 10 | 345 | 211 |
| **Cyfanswm Incwm Gweithredu** | | **39,983** | **38,986** |
| **Gwarged ar ôl gwariant gweithredu** | | **7,035** | **7,283** |
| Incwm o fuddsoddiadau | 4 | 311 | 114 |
| Colledion wedi'u gwireddu o werthu buddsoddiadau | 14 | (17) | - |
| (Colled)/enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau | 14 | (1,056) | 189 |
| **Gwarged ar gyfer y flwyddyn ar ôl incwm buddsoddiadau ac addasu** | | **6,273** | **7,586** |
| Treth | 11 | (8) | (51) |
| **Gwarged a gadwyd ar ôl treth** | | **6,265** | **7,535** |
| **Incwm cynhwysfawr arall** | | | |
| Eitemau heb eu hailddosbarthu | | | |
| Enillion actiwaraidd ar asedau cynllun pensiwn | 20 | 489 | 2,800 |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr arall** | | **489** | **2,800** |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **6,754** | **10,335** |

Mae'r holl incwm a gwariant yn ymwneud â gweithgareddau parhaus.

Ailddatganwyd incwm ar gyfer 2017, oherwydd mabwysiadu IFRS 15.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 49–70 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol

Ar 31 Rhagfyr 2018

| | | 2018<br>£'000 | Ailddatganwyd<br>2017<br>£'000 | Ailddatganwyd<br>2016<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | **Nodyn** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 12 | 11,699 | 9,968 | 10,594 |
| Asedau anghyffyrddadwy | 13 | 213 | 381 | 601 |
| Asedau ariannol – gwerth teg drwy elw a cholled | 14 | 14,315 | 948 | 756 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | | - | - | - |
| Darpariaeth ar gyfer asedau pensiwn | 20 | 3,930 | 1,500 | - |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **30,157** | **12,797** | **11,951** |
| **Asedau cyfredol** | | | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 15 | 1,795 | 2,342 | 2,517 |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | 16 | 42,344 | 47,705 | 38,899 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **44,139** | **50,047** | **41,416** |
| **Cyfanswm asedau** | | **74,296** | **62,844** | **53,367** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 17 | 6,679 | 3,528 | 4,233 |
| Rhwymedigaethau eraill | 17 | 77 | - | 58 |
| Incwm gohiriedig | 17 | 41,714 | 41,243 | 40,655 |
| Darpariaethau | 19 | 1,011 | - | - |
| Treth gorfforaeth | 17 | 4 | 20 | 123 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **49,485** | **44,791** | **45,069** |
| **Asedau anghyfredol plws/llai asedau/rhwymedigaethau** | | **24,811** | **18,053** | **8,298** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | |
| Rhwymedigaeth Pensiwn | | - | - | 611 |
| Treth ohiriedig | 17 | 146 | 142 | 111 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **146** | **142** | **722** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **24,665** | **17,911** | **7,576** |
| **Cronfeydd wrth gefn** | | | | |
| Cronfa wrth gefn gyffredinol | | 20,907 | 15,527 | 7,492 |
| Cronfa bensiwn wrth gefn | | 3,930 | 1,500 | (611) |
| Enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau wrth gefn | | (172) | 884 | 695 |
| **Cyfanswm cronfeydd wrth gefn** | | **24,665** | **17,911** | **7,576** |

Mae incwm gohiriedig a chronfeydd wrth gefn cyffredinol wedi'u hailddatgan ar gyfer 2017 a 2016, oherwydd mabwysiadu IFRS 15.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 49–70 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan Aelodau'r Cyngor ac fe'u llofnodwyd ar eu rhan ar 15 Hydref 2019.

**William Moyes**
Cadeirydd

**Ian Brack**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

# Datganiad llif arian

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2018

| | | 2018<br>£'000 | Ailddatganwyd<br>2017<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | Nodyn | | |
| Gwarged o weithgareddau gweithredu | I&E | 7,035 | 7,282 |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | | 1,061 | 1,064 |
| Colled ar waredu eiddo, offer a chyfarpar | | (4) | - |
| Lleihad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill | 15 | 547 | 175 |
| Cynnydd/(Lleihad) mewn symiau taladwy masnach a rhwymedigaethau eraill | 17 | 3,699 | (174) |
| Symudiadau ariannu'r gronfa bensiwn wrth gefn | 20 | (1,941) | 689 |
| Defnydd o ddarpariaethau | 19 | 1,011 | - |
| **Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu** | | **11,408** | **9,036** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 12 | (2,626) | (180) |
| Prynu asedau anghyffyrddadwy | 13 | - | (38) |
| Enillion o werthu asedau | | 5 | - |
| Enillion o werthu asedau ariannol | 14 | 490 | - |
| Prynu asedau ariannol | 14 | (14,930) | (3) |
| Incwm o fuddsoddiadau | 4 | 311 | 114 |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(16,750)** | **(107)** |
| Treth | | (20) | (123) |
| **(Lleihad)/cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod** | | **(5,362)** | **8,806** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | **16** | **47,705** | **38,899** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | **16** | **42,343** | **47,705** |
| **(Lleihad)/cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | | **(5,362)** | **8,806** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 49–70 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad o newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2018

| | Nodyn | Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol | 2018<br>Cronfa Bensiwn Wrth Gefn | Enillion heb eu gwireddu ar Fuddsoddiadau | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2016** | | **12,121** | **(611)** | **695** | **12,205** |
| Addasiad Incwm IFRS | | (4,629) | - | - | (4,629) |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2016 wedi'i ailddatgan** | | **7,492** | **(611)** | **695** | **7,576** |
| **Newidiadau i gronfeydd wrth gefn ar gyfer 2017** | | | | | |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn | I&E | 10,335 | - | - | 10,335 |
| Colled actiwaraidd ar y cynllun pensiwn | 20 | (2,800) | 2,800 | - | - |
| Trosglwyddo cronfeydd wrth gefn | | 689 | (689) | - | - |
| Colled heb ei wireddu ar fuddsoddiadau | 14 | (189) | - | 189 | - |
| | | **8,035** | **2,111** | **189** | **10,335** |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2017** | | **15,527** | **1,500** | **884** | **17,911** |
| **Newidiadau i gronfeydd wrth gefn yn 2018** | | | | | |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn | I&E | 6,754 | - | - | 6,754 |
| Enillion actiwaraidd ar gynllun pensiwn | 20 | (489) | 489 | - | - |
| Trosglwyddo cronfeydd wrth gefn | | (1,941) | 1,941 | - | - |
| Enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau | 14 | 1,056 | - | (1,056) | - |
| | | **5,380** | **2,430** | **(1,056)** | **6,754** |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2018** | | **20,907** | **3,930** | **(172)** | **24,665** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 49–70 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## **1** POLISÏAU CYFRIFYDDU

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail 'busnes gweithredol', ac o dan y confensiwn cost hanesyddol, fel y'i diwygiwyd ar ôl cynnwys buddsoddiadau ar sail eu marchnadwerth, yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd (UE) a chan ystyried egwyddorion a datgeliadau cyfrifyddu Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi'u rhoi ar waith yn gyson, ac fe'u nodir isod.

Sefydlwyd y CDC gan Ddeddf Seneddol ym 1956 ac fe'i lleolir yn y Deyrnas Unedig. Lleolir y brif swyddfa yn 37 Wimpole Street, Llundain W1G 8DQ.

Cyflwynir y datganiadau ariannol yn arian cyfred gweithredol y CDC, sef punnoedd sterling.

### **1.1** FFORMAT Y CYFRIFON

Mae'n ofynnol i'r CDC baratoi ei gyfrifon blynyddol ar ffurf a bennir gan y Cyfrin Gyngor. Mae'n rhaid i'r Cyfrin Gyngor gyflwyno'r cyfrifon ardystiedig gerbron dau Dŷ'r Senedd a Senedd yr Alban. Nodir diben statudol y CDC yng nghyflwyniad yr adroddiad ar gyfrifon.

### **1.2** MABWYSIADAU SAFONAU CYFRIFYDDU NEWYDD A DIWYGIEDIG

Cafodd y safonau a'r dehongliadau canlynol eu mabwysiadu yn ystod y cyfnod cyfredol:

| Safon | Dyddiad mabwysiadu |
|---|---|
| IFRS 9, Offerynnau ariannol | 1 Ionawr 2018 |
| IFRS 15, Refeniw o gontractau gyda chwsmeriaid | 1 Ionawr 2018 |

Mae IFRS 9, 'Offerynnau Ariannol', yn disodli IAS39, 'Offerynnau Ariannol: Cydnabod a Mesur'. Mae IFRS 9 yn cyflwyno:

- gofyniad newydd ar gyfer dosbarthu a mesur asedau a rhwymedigaethau ariannol.
- model colli credyd newydd ar gyfer cydnabod darpariaethau yn seiliedig ar golledion credyd disgwyliedig. Mae hyn yn arwain at neilltuo asedau i un o dri dosbarthiad; cost wedi'i amorteiddio; gwerth teg drwy elw a cholled neu werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall.
- cyfrifyddu ar sail rhagfantoli wedi'i symleiddio trwy sicrhau bod cyfrifyddu ar sail rhagfantoli yn cyd-fynd yn agos â methodoleg rheoli risg endid.

Bydd asedau buddsoddi'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol sydd ar gael i'w gwerthu'n cael eu dosbarthu ar werth teg drwy elw a cholled. Bydd yr asedau'n parhau i gael eu prisio ar sail gwerth teg, fodd bynnag bydd unrhyw newid mewn gwerth teg nawr yn cael ei gydnabod mewn gwariant net. Bydd hyn yn cynyddu anwadalrwydd mewn gwariant net ac yn dileu cronfa wrth gefn 'enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau'.

Mae asedau ariannol eraill y Cyngor yn cynnwys balansau arian parod yn bennaf, ac felly nid yw cyflwyno'r model colli credyd disgwyliedig yn effeithio arnynt yn sylweddol.

Mae IFRS 15, 'Refeniw o gontractau gyda chwsmeriaid', yn disodli, IAS 11 'Contractau Adeiladu', IAS 18 'Refeniw', a'u dehongliadau cysylltiedig. Egwyddor graidd IFRS 15 yw bod endid yn cydnabod refeniw i ddisgrifio trosglwyddo nwyddau neu wasanaethau a addawyd i gwsmeriaid mewn swm sy'n adlewyrchu'r ystyriaeth y mae'r endid yn disgwyl bod â hawl iddi yn gyfnewid am y nwyddau a'r gwasanaethau hynny.

Mae incwm ffioedd y CDC yn cael ei ohirio a'i ryddhau ar sail llinol i'r Cyfrif Incwm a Gwariant dros y cyfnod y mae'r incwm yn ymwneud ag ef. Mae mabwysiadu IFRS 15 wedi arwain at addasiad cyfnod blaenorol o £4.6m i'n cronfeydd wrth gefn cyffredinol agoriadol. Byddai cynnydd cyfatebol o £4.6m ym malans yr incwm gohiriedig ar yr un dyddiad, o £36,026,000 i £40,655,000. Ni effeithir ar unrhyw un o falansau eraill y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Roedd cyfanswm incwm ffioedd 2017 yng nghyfrifon y llynedd yn £44,989,000, ac mae incwm ffioedd ailddatganedig 2017 yn £44,877,000. Mae'r safonau newydd, y diwygiadau a'r newidiadau dilynol wedi cael eu cyhoeddi, ond nid ydynt wedi dod i rym hyd yn hyn:

Mae IFRS 16, 'Prydlesi', yn mynd i'r afael â'r diffiniad o brydles, yn cydnabod ac yn mesur prydlesi, ac yn sefydlu egwyddorion ar gyfer rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ddefnyddwyr datganiadau ariannol am weithgareddau prydlesu deiliaid prydlesi a gosodwyr prydlesi. Un newid allweddol sy'n codi o IFRS 16 yw'r ffaith y bydd mwyafrif y prydlesi gweithredu yn cael eu cyfrif ar y fantolen ar gyfer deiliaid prydlesi. Mae'r safon hon yn disodli IAS17, 'Prydlesi', a

| Safon | Dyddiad mabwysiadu |
|---|---|
| IFRS 16, Prydlesi | 1 Ionawr 2019 |

dehongliadau cysylltiedig, ac mae'n gymwys ar gyfer cyfnodau blynyddol yn dechrau ar neu wedi 1 Ionawr 2019.

Mae'r Cyngor wedi asesu effaith IFRS 16 ar y datganiadau ariannol:

- bydd y Cyngor yn trin unrhyw brydlesi ased sylfaenol sy'n werth llai na £3,000 fel ased gwerth isel.
- ar y dyddiad adrodd, mae gan y CDC ymrwymiadau prydlesi gweithredu na ellir eu canslo sy'n werth £8,646,000 (gweler nodyn 21). Mae'r Cyngor yn amcangyfrif bod oddeutu 1% o'r rhain yn ymwneud â thaliadau am brydlesi tymor byr a gwerth isel a fydd yn cael eu cydnabod ar sail linol fel cost i'r cyfrif incwm a gwariant.
- mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd gwerth yr asedau hawl i'w defnyddio yn £6,325,000 a bydd yr effaith ar y cyfrif incwm a gwariant yn £415,000.

Mae'r Cyngor yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r safon hon yn gynnar yn arwain at effaith sylweddol ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, na'r canlyniadau ar gyfer 2017 a 2018, ac mae wedi penderfynu peidio ei mabwysiadu tan y dyddiad pan ddaw i rym, pan fyddai'n ofynnol ei mabwysiadu.

## 1.3 AMCANGYFRIFON A PHENDERFYNIADAU CYFRIFYDDU CRITIGOL

Er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol yn unol â'r IFRS, mae'n rhaid i'r CDC wneud rhai amcangyfrifon a phenderfyniadau sy'n cael effaith ar y polisïau a'r symiau sy'n cael eu hadrodd yn y cyfrifon blynyddol. Mae'r amcangyfrifon a'r penderfyniadau'n seiliedig ar brofiadau hanesyddol a ffactorau eraill gan gynnwys disgwyliadau yn ymwneud â digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol ar adeg gwneud amcangyfrifon a phenderfyniadau o'r fath. Mae'n bosibl y bydd yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sydd â'r perygl mwyaf sylweddol o achosi newid sylweddol i symiau cario'r asedau a'r rhwymedigaethau yn cael eu trafod isod.

### Buddion pensiwn

Mae'r CDC yn ymdrin â phensiynau yn unol ag IAS 19, 'Buddion Gweithwyr Cyflogedig'. Wrth bennu cost pensiynau a rhwymedigaeth budd diffiniedig cynllun pensiwn budd diffiniedig y CDC, defnyddir nifer o dybiaethau sy'n cynnwys y gyfradd ddisgownt, twf cyflog, chwyddiant prisiau, yr enillion disgwyliedig ar fuddsoddiadau'r cynlluniau a chyfraddau marwolaeth. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu IAS19 (2011) sy'n weithredol ar gyfer cyfnodau sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2013. Bydd y rhagdybiaethau'n cael eu cytuno â'r actiwari cymwysedig ac yn cael eu defnyddio i gyfrifo'r ddarpariaeth bensiwn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn nodyn 20 y cyfrifon.

Ar 31 Rhagfyr 2018, roedd gan y cynllun warged o £3.9 miliwn yn seiliedig ar y tybiaethau IAS 19 a fabwysiadwyd. Dan ofynion 'IFRIC 14: Y Cyfyngiad ar Ased Budd Diffiniedig, y Gofynion Ariannu Lleiaf a'u Rhyngweithiad', gallai'r CDC orfod cyfyngu ar y gwarged mewn datganiadau ariannol os na fyddai'n gallu sicrhau'r budd economaidd llawn o'r gwarged hwnnw. O dan delerau ac amodau'r Cynllun, byddai'r CDC yn gallu sicrhau'r budd economaidd llawn o'r gwarged naill ai trwy seibiant cyfraniadau llawn neu trwy leihau ei gyfraniadau yn y dyfodol. Felly, nid oes cyfyngiad ar y gwarged yr adroddir amdano.

### Darpariaethau

Mae'r CDC yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu adeiladol sydd ag amseriad neu swm ansicr ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn seiliedig ar yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth.

### Dibrisiant ac amorteiddiad

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymdrin â dibrisiant ac amorteiddiad yn unol ag IAS 16, 'Eiddo, Offer a Chyfarpar', ac IAS 38, 'Asedau Anghyffyrddadwy'. Y gost dibrisio ac amorteiddio sy'n cydnabod y gostyngiad yng ngwerth yr ased ac yn dyrannu cost yr ased dros y cyfnodau y caiff yr ased ei ddefnyddio.

Gwneir penderfyniadau ar sail amcangyfrif o oes ddefnyddiol yr asedau, ac fe'u hadolygir yn rheolaidd i adlewyrchu'r amgylchedd newidiol.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn y polisi cyfrifyddu ar ddibrisiant ac amorteiddiad isod (nodyn 1.6).

## 1.4 BUSNES GWEITHREDOL

Mae'r CDC wedi adolygu rhagolygon incwm ffioedd rhagamcanol, gweithrediadau a llif arian ar gyfer y 12 mis nesaf. Mae'r CDC yn credu ei bod hi'n briodol paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar sail busnes gweithredol.

## 1.5 EIDDO, OFFER, CYFARPAR AC ASEDAU ANGHYFFYRDDADWY

Mae Asedau Diriaethol Sefydlog Anghyfredol yn cael eu nodi fel Eiddo, Offer a Chyfarpar o dan IAS 16. Lle bo hynny'n briodol, mae asedau meddalwedd a datblygu Technoleg Gwybodaeth wedi'u dosbarthu fel Asedau Anghyffyrddadwy o dan IAS 38.

Cedwir asedau sy'n cael eu hadeiladu ar sail cost ar y dyddiad cyfrifyddu nes byddant yn gallu bod yn weithredol, pan gânt eu trosglwyddo i'r dosbarth asedau anghyfredol y maent yn perthyn iddo.

Nodir eiddo, offer, cyfarpar ac asedau anghyffyrddadwy ar sail cost, ar ôl ystyried gwerth dibrisiant ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer lleihad.

Dim ond pan fo cost yr ased neu'r grŵp o asedau a gaffaelwyd yn fwy na £1,000 y caiff gwariant ei gyfalafu.

## 1.6 DIBRISIANT AC AMORTEIDDIAD

Diben dibrisio ac amorteiddio yw dileu cost yr asedau anghyfredol yn gyfartal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifiedig. Mae cost dibrisio ac amorteieddio wedi'i chynnwys yn llinell gwariant gweinyddu y cyfrif incwm a gwariant o dan incwm a gwariant cynhwysfawr. Mae'r oesau defnyddiol fel a ganlyn:

Adolygir cyfraddau dibrisio yn rheolaidd i gymharu oes wirioneddol asedau â chyfraddau'r polisi cyfrifyddu.

| Dosbarthiad asedau | Oes asedau |
|---|---|
| Dodrefn a ffitiadau | Hyd at 10 mlynedd |
| Offer a chyfarpar | Hyd at 25 mlynedd |
| Offer TG | Hyd at 5 mlynedd |
| Meddalwedd TG, trwyddedau a sicrwydd meddalwedd | Hyd at 5 mlynedd |
| Gwella prydles | Dros weddill y brydles – 20 mlynedd neu 10 mlynedd neu, os yw'n fyrrach, dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig |

## 1.7 LLEIHAD

Ar bob dyddiad Datganiad o Sefyllfa Ariannol, bydd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn adolygu symiau cario ei asedau i bennu a oes unrhyw arwydd bod yr asedau wedi lleihau mewn gwerth. Os ceir arwydd o'r fath, amcangyfrifir swm adferadwy'r ased er mwyn pennu graddfa'r colledion lleihad. Caiff colledion lleihad eu cyfrif yn y datganiad incwm a gwariant ar unwaith.

Pan fo cynnydd dilynol yn swm adferadwy ased, yn sgil newid yn yr amcangyfrifon a ddefnyddiwyd i bennu'r swm adferadwy, mae'n cael ei ystyried fel gwrthdroad o'r colledion lleihad blaenorol ac yn cael ei gydnabod i'r un graddau â swm cario'r ased a fyddai wedi'i bennu (gan ystyried amorteiddiad a dibrisiant) pe na bai colledion lleihad wedi'u cydnabod. Cydnabyddir y gwrthdroad yn y datganiad incwm a gwariant ar unwaith.

## 1.8 GWARIANT

Cyfrifir gwariant ar sail croniadau ar ôl i'r nwyddau gael eu derbyn neu ar ôl i'r gwasanaeth gael ei gyflawni. Caiff TAW anadferadwy ei chynnwys gyda'r eitem o wariant y mae'n berthnasol iddi.

## 1.9 INCWM

Cyfrifir pob incwm ble ceir sicrwydd digonol ynghylch hawl, swm a derbyn yn ei gylch. Mae'r holl ffioedd am y cyfnod cofrestru gan ddeintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn cael eu gohirio a'u rhyddhau ar sail linol dros gyfnod eu cofrestriad. 1 Ionawr i 31 Rhagfyr yw'r cyfnod cofrestru ar gyfer deintyddion. 1 Awst i 31 Rhagfyr yw'r cyfnod cofrestru ar gyfer gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol.

Cydnabyddir ffioedd a dderbynnir mewn perthynas ag Arholiadau Cofrestru Tramor pan fo'r arholiadau'n cael eu sefyll.

Cydnabyddir ffioedd amrywiol, gwerthiannau eraill ac incwm arall pan ddarperir y nwyddau neu'r gwasanaethau cysylltiedig. Cydnabyddir incwm o fuddsoddiadau pan fo difidendau neu log yn ddyledus ac fe'i cofnodir fel swm sy'n cynnwys y dreth adferadwy.

## 1.10 PRYDLESI

Adolygir telerau holl brydlesi'r Cyngor a lle mae manteision a pheryglon perchnogaeth yn nwylo'r Cyngor, ystyrir prydlesi yn brydlesi ariannol. Mae gwerthoedd cyfalaf prydlesi ariannol, ynghyd â gwerth cyfredol ad-daliadau cyfalaf yn y dyfodol, yn cael eu nodi fel asedau a rhwymedigaethau yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Caiff prydlesi sydd ddim yn brydlesi ariannol eu nodi fel prydlesi gweithredol. Caiff prydlesi gweithredol eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar sail linol dros dymor y brydles, gan ystyried unrhyw gymhellion prydles yn unol â thelerau IAS 17.

Bydd y Cyngor yn adolygu pob contract gwasanaeth hefyd i bennu a yw'r contractau'n cynnwys prydles ariannol o dan delerau IAS 17 fel y'u dehonglir gan IFRIC 4.

## 1.11 TRETH

Caiff y Cyngor ei drethu fel sefydliad cydfuddiannol ac felly caiff ei drethu ar ffynonellau allanol o incwm yn unig. Yn hanesyddol, incwm o fuddsoddiadau yw hyn.

Cydnabyddir treth ohiriedig ar bob gwahaniaeth dros dro trethadwy. Fodd bynnag, ni ddarperir treth ohiriedig pan gydnabyddir ased neu rwymedigaeth yn y lle cyntaf oni bai bod y trafodyn cysylltiedig yn effeithio ar dreth neu elw cyfrifyddu. Yn ychwanegol, cydnabyddir ased treth ohiriedig ar gyfer pob gwahaniaeth dros dro didynadwy i'r graddau ei bod yn debygol y bydd yr elw trethadwy ar gael ac y gellir defnyddio'r gwahaniaeth dros dro didynadwy yn ei erbyn. Mesurir asedau a rhwymedigaethau treth ohiriedig ar y cyfraddau treth y disgwylir iddynt fod yn gymwys yng nghyfnod gwireddu'r ased neu pan gaiff y rhwymedigaeth ei setlo. Mae'r mesuriad yn seiliedig hefyd ar y canlyniadau o safbwynt treth o adennill neu setlo swm cario asedau a rhwymedigaethau. Cydnabyddir newidiadau mewn asedau neu rwymedigaethau treth ohiriedig fel elfen o gostau treth yn y cyfrif incwm a gwariant.

## 1.12 CYNLLUNIAU PENSIWN

Mae'r Cyngor yn gweithredu pedwar cynllun pensiwn.

| Cynllun Pensiwn | Ymddiriedolaeth |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth Meistr | People's Pension |
| Adran Cyfraniadau Diffiniedig 2014 | Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Bywyd 1970 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol |
| Adran Buddion Diffiniedig | Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Bywyd 1970 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol |
| Adran Cyfraniadau Diffiniedig 'atodol' | Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Bywyd 1970 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol |

Mae gweithwyr sy'n ymuno â'r CDC o fis Medi 2018 yn dod o dan ddarpariaethau cynllun Ymddiriedolaeth Meistr People's Pension. Rydym yn cydnabod cost ddisgwyliedig y cynllun hwn ar sail systematig a rhesymegol, dros y cyfnod y mae'n elwa o wasanaeth y gweithiwr, trwy dalu symiau a gyfrifir ar sail gronnus i People's Pension. Pennwyd cyfraniadau fel canran o gyflogau pensiynadwy, ac mae cyfraniad y cyflogwr wedi'i bennu fel isafswm o 6% ac uchafswm o 10% o gyflog pensiynadwy. Mae atebolrwydd am dalu buddion yn y dyfodol yn gost i People's Pension.

Mae'r tri chynllun pensiwn arall yn yr un ymddiriedolaeth – Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Bywyd 1970 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae asedau'r cynlluniau yn cael eu cadw ar wahân i asedau'r Cyngor ac maent yn cael eu buddsoddi yn unol â'r disgrifiad yn nodyn 20.

### Adran Cyfraniadau Diffiniedig 2014

Sefydlwyd yr adran hon i'w gweithredu o 1 Chwefror 2014 ymlaen, gan ystyried diwygiadau i bensiynau yn sgil y system gofrestru awtomatig. Pennir cyfraniadau fel canran o'r cyflog pensiynadwy, ac mae cyfraniad y cyflogwr yn isafswm o 6% ac yn uchafswm o 10% o'r cyflog pensiynadwy. Caiff y cyfraniadau eu cynnwys o dan y cyfrif incwm a gwariant wrth iddynt ddod yn ddyledus.

### Adran Buddion Diffiniedig

Cafodd yr adran hon ei chau i weithwyr newydd a gafodd gynnig swydd ar ôl 31 Rhagfyr 2014, a bydd ar gau i'r rhai newydd sy'n ymuno ar ôl 1 Gorffennaf 2016. Caiff costau gwasanaeth cyfredol y cynllun pensiwn buddion diffiniedig, cyfanswm net costau llog y cynllun a'r elw disgwyliedig ar asedau'r cynllun ar gyfer y flwyddyn eu cynnwys o dan 'gostau pensiwn' y cyfrif incwm a gwariant. Cydnabyddir enillion a cholledion actiwaraidd yn syth o fewn 'incwm cynhwysfawr arall'.

Caiff asedau'r adran budd diffiniedig eu mesur ar sail gwerth teg ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol. Mesurir rhwymedigaethau'r cynllun ar sail actiwaraidd ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau a'u disgowntio ar gyfradd sy'n gyfwerth â chyfradd adennill gyfredol bond corfforaethol o safon uchel sydd â chyfnod tebyg i rwymedigaethau'r cynllun. Nodir ased neu rwymedigaeth y buddion diffiniedig terfynol ar wahân yn y datganiad o sefyllfa ariannol.

### Adran cyfraniadau diffiniedig 'atodol'

Cafodd yr adran hon ei chau i'r rhai newydd a oedd yn ymuno ar ôl 1 Ebrill 2014. Mae cyfraniadau'n wirfoddol a bydd y Cyngor yn gwneud cyfraniadau cyfatebol o hyd at 5% o'r cyflog pensiynadwy. Caiff y cyfraniadau eu cynnwys o dan y cyfrif incwm a gwariant wrth iddynt ddod yn ddyledus.

## 1.13 OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r Cyngor yn ystyried ei holl rwymedigaethau ariannol yn rhwymedigaethau ariannol ar sail gwerth teg drwy elw neu golled, a chaiff symudiadau eu cynnwys mewn gwariant net.

### Asedau ariannol

Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddiadau o warantau rhestredig, gwarantau llog sefydlog, ecwitïau, ac ymddiriedolaeth unedol sy'n gronfa a reolir ac sy'n cynnwys portffolio cymysg o warantau rhestredig ac adneuon arian parod. Mae gwerth teg y buddsoddiadau'n seiliedig ar y pris cynnig terfynol a ddyfynnir ar y dyddiadau cyfrifyddu. Cydnabyddir enillion a cholledion heb eu gwireddu sy'n deillio o newidiadau mewn marchnadwerth yn y cyfrif incwm a gwariant.

### Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

Mae'r rhain yn cynnwys arian mewn llaw ac adneuon a ddelir ar alwad gyda banciau.

### Rhwymedigaethau ariannol

Mae'r Cyngor yn ystyried ei holl rwymedigaethau ariannol yn rhwymedigaethau ariannol ar sail gwerth teg drwy elw neu golled. Isod, nodir y mathau o rwymedigaethau o fewn y categori, yn dibynnu ar y diben yr achoswyd y rhwymedigaeth ar ei gyfer.

### Masnach a symiau taladwy eraill

Mae'r rhain yn cael eu cydnabod i ddechrau ar sail gwerth teg ac yna'n cael eu cario ar y gwerth a anfonebwyd neu'r gost amorteiddio. Mae'r rhain yn deillio'n bennaf o dderbyn nwyddau a gwasanaethau. Datgelir gwerth y rhwymedigaethau hyn yn nodyn 17.

## 1.14 CRONFEYDD WRTH GEFN

Mae cronfeydd wrth gefn yn cynnwys y canlynol:

### Cronfeydd wrth gefn cyffredinol

Maent yn cynrychioli'r canlyniadau argadwedig ar ôl trosglwyddo enillion a cholledion actiwaraidd ar asedau cynllun pensiwn.

### Cronfeydd wrth gefn y pensiwn

Mae'n cynrychioli'r enillion a'r colledion actiwaraidd ar asedau cynllun pensiwn sy'n codi yn sgil ailwerthusiad o ddarpariaeth y CDC ar gyfer asedau/atebolrwydd y cynllun pensiwn buddion diffiniedig.

## 2 INCWM COFRESTRU

Ailddatganwyd incwm ar gyfer 2017, oherwydd mabwysiadu IFRS 15.

| | 2018 | | 2017 (Ailddatganwyd) |
|---|---|---|---|
| | Nifer | £'000 | £'000 |
| **Deintyddion** | | | |
| Cyfanswm cofrestru newydd | 1,782 | 822 | 792 |
| Cofrestru dros dro | 32 | 28 | 23 |
| Cadw | 40,165 | 35,747 | 35,400 |
| Adfer ar ôl dileu | 273 | 243 | 221 |
| **Cyfanswm** | **42,252** | **36,840** | **36,436** |
| **Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol** | | | |
| Cyfanswm cofrestru newydd | 4,492 | 330 | 333 |
| Cadw (Awst – Rhagfyr)* | 68,728 | 3,271 | 3,207 |
| Cadw (Ionawr – Gorffennaf)** | - | 4,490 | 4,408 |
| Adfer ar ôl dileu | 1,042 | 133 | 131 |
| **Cyfanswm** | **74,262** | **8,224** | **8,079** |
| **Arbenigwyr** | | | |
| Cofrestru arbenigwyr | 136 | 47 | 56 |
| Ffi cadw flynyddol arbenigwyr | 4,216 | 304 | 305 |
| Ffi adfer arbenigwyr | 26 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **4,378** | **352** | **362** |
| **Cyfanswm Incwm Cofrestru** | **120,892** | **45,416** | **44,877** |

Mae'r ffigurau uchod yn dangos faint o weithwyr cofrestredig a wnaeth dalu ffioedd yn ystod y flwyddyn yn hytrach na nifer y gweithwyr cofrestredig oedd ar y gofrestr ar 31 Rhagfyr 2018.

## 3 INCWM AMRYWIOL

| | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Ffioedd arholiadau | 1,588 | 1,389 |
| Incwm gweithredu arall | 14 | 3 |
| **Cyfanswm Incwm Amrywiol** | **1,602** | **1,392** |

## 4 INCWM O FUDDSODDIADAU

| | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Llog adneuon banc | 150 | 104 |
| Difidendau – gwarantau rhestredig | 161 | 10 |
| **Cyfanswm Incwm o Fuddsoddiadau** | **311** | **114** |

Talodd y CDC £17,0000 ar golledion wedi'u gwireddu yn ymwneud â gwaredu buddsoddiadau; mae'r incwm net o fuddsoddiadau ar gyfer 2018 yn £294,000 (2017: £114,000).

## 5 NIFEROEDD STAFF A CHOSTAU CYSYLLTIEDIG

| | | 2018 | | 2017 |
|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol | Eraill £'000 | Cyfanswm | Cyfanswm £'000 |
| **Costau Staff** | | | | |
| Cyflogau | 15,460 | - | 15,460 | 14,051 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 1,718 | - | 1,718 | 1,463 |
| Costau pensiynau | 1,744 | - | 1,744 | 2,148 |
| Taliadau dileu a therfynu swyddi | 1,851 | - | 1,851 | 99 |
| Costau staff eraill | 1,326 | - | 1,326 | 1,190 |
| **Is-gyfanswm** | **22,099** | **-** | **22,099** | **18,951** |
| Staff dros dro | - | 435 | 435 | 447 |
| **Cyfanswm** | **22,099** | **435** | **22,534** | **19,398** |

Mae costau staff yn 2018 yn cynnwys costau diswyddiadau a swyddi a ddyblygwyd mewn perthynas â pharhau â'n gwaith o greu ein Hwb Gweithredol yn Birmingham.

| | | 2018 | | 2017 |
|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol | Eraill | Cyfanswm | Cyfanswm |
| Addasrwydd i ymarfer a gwrandawiadau | 122 | 28 | 150 | 157 |
| Cofrestru | 44 | 17 | 61 | 54 |
| Polisi a rheoli rhanddeiliaid | 20 | 5 | 25 | 16 |
| Llywodraethu | 9 | 1 | 10 | 25 |
| Adnoddau Dynol | 9 | 5 | 14 | 12 |
| Sicrhau Ansawdd | 7 | 1 | 8 | 8 |
| Gwasanaeth Cwynion Deintyddol | 7 | - | 7 | 9 |
| Adnoddau Corfforaethol | 67 | 16 | 83 | 54 |
| **Cyfanswm** | **285** | **73** | **358** | **335** |

Dyma nifer y staff, gan gynnwys y cyfarwyddwyr gweithredol, y mae eu henillion trethadwy, ac eithrio unrhyw daliadau iawndal ond gan gynnwys gwerth gwyliau heb eu hawlio ar ddiwedd 2018, yn perthyn i fandiau cyflog uwch:

| | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| £60,000 ond o dan £70,000 | 30 | 19 |
| £70,000 ond o dan £80,000 | 8 | 7 |
| £80,000 ond o dan £90,000 | 2 | 3 |
| £90,000 ond o dan £100,000 | 2 | 2 |
| £100,000 ond o dan £110,000 | 1 | - |
| £110,000 ond o dan £120,000 | 1 | 3 |
| £120,000 ond o dan £130,000 | 3 | - |
| £130,000 ond o dan £140,000 | - | - |
| £140,000 ond o dan £150,000 | 1 | 1 |

## 6 COSTAU GWEINYDDOL ERAILL

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2018.

| | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol** | | |
| **Tâl a threuliau'r Archwilydd:** | | |
| Archwiliad allanol | 24 | 23 |
| Archwiliad allanol – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol | 4 | 4 |
| Archwiliad mewnol | 79 | 65 |
| Ffioedd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol | 283 | 276 |
| Gwrandawiadau ymddygiad | 1,406 | 1,929 |
| Ffioedd Bargyfreithwyr | 864 | 1,233 |
| Ffioedd arbenigwyr | 1,068 | 1,108 |
| Costau Arholiadau | 1,413 | 1,229 |
| Ffioedd a chostau eraill | 1,558 | 2,004 |
| Treuliau eraill | 99 | 137 |
| **Cyfanswm** | **6,798** | **8,008** |

| | | |
|---|---|---|
| **Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol y gwasanaethau canlynol nad oeddent yn rhan o'r archwiliad gan yr archwilydd allanol, haysmacintyre:** | | |
| Cyngor ynghylch treth gorfforaeth | 2 | 2 |
| Cyngor ynghylch cyflogaeth a chyngor arall | - | - |
| **Cyfanswm** | **2** | **2** |

## 7 CYFARFODYDD Y CYNGOR A'R PWYLLGORAU

| | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Ffioedd a dalwyd i Aelodau'r Cyngor | 232 | 232 |
| Treuliau a dalwyd i Aelodau'r Cyngor | 85 | 103 |
| Ffioedd a threuliau proffesiynol y Cyngor | - | - |
| Treuliau cyfarfodydd y Cyngor | 91 | 127 |
| **Cyfanswm ffioedd a threuliau'r Cyngor** | **408** | **462** |
| | | |
| Ffioedd a dalwyd i aelodau pwyllgorau a phaneli | 1,744 | 2,125 |
